# ECO'R WYDDFA

RHIF 27 MEHEFIN 1978 Pris: 10c


# Llongyfarchiadau Selwyn



Llongyfarchiadau gwresog i Selwyn Griffith, golygydd Llannerch y Llenor yn yr Eco, ar ennill Cadair Eisteddfod Pontrhydfendigaid ynghyd â gwobr o £300. Cystadleuaeth y Gadair eleni oedd cyfrol fer o gerddi ar y testun "Bro", a'r fro a ddewisodd Selwyn oedd bro Nant yr Wyddfa.

Beirniaid y gystadleuaeth oedd Dafydd Marks a Roy Stephens. Hon oedd y 36ed fuddugoliaeth Eisteddfodol i Selwyn. Cafodd ei goron gyntaf yn Eisteddfod Gorffwysfa Llanberis yn 1955. R.E. Jones (Llanrwst rŵan) oedd yn beirniadu, gyda Llwyd o'r Bryn yn gweinyddu'r seremoni fel archdderwydd.

Yn ystod y blynyddoedd mae Selwyn wedi ennill cadeiriau eisteddfodau mawr sir Feirionnydd fel Llandderfel, Llanfachreth (dwywaith) a Llanuwchllyn yn 1966. Cipiodd gadair Dyffryn Ogwen (ddwywaith), a chadair Eisteddfod Dyffryn Conwy yn 1971.

Mae Selwyn wedi cynnig am y Goron Genedlaethol bedair gwaith, ac wedi dod yn agos fwy nag unwaith. Daeth yn agos iawn yn Rhuthun yn 1973, pan osodwyd ei bryddest "Y Dref" yn ail gan un o'r beirniaid. Pryddest i dref Caernarfon oedd hon, ac fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd. Bydd cyfrol o farddoniaeth, yn cynnwys Pryddest "Y Dref" yn cael ei chyhoeddi erbyn Eisteddfod Caernarfon.

Enillodd Selwyn yn Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun am Gerdd Goffa i Waldo Williams.

Ar ôl bod ym Mhontrhydfendigaid yn beirniadu llynedd, dyma'r bardd o Fethel yn mynd yn ôl eleni i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau'r fro i Selwyn!

Bydd rhai o'i gerddi buddugol yn ymddangos yn rhifynnau nesaf yr Eco.

# CARTREF NEWYDD I YSGOL FEITHRIN LLANRUG

**ERS saith wythnos bellach, mae Ysgol Feithrin Llanrug wedi cael ei chynnal yn ei chartref newydd yn festri capel Pontrhythallt. Bu'r ysgol ar gau o'r Nadolig hyd at wyliau'r Pasg, oherwydd teimlai pwyllgor yr Ysgol Feithrin nad oedd ei hen gartref, sef ysgol Glan Moelyn yn addas ar gyfer plant mor fach.**

Mae pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn hynod ddiolchgar i aelodau capel Pontrhythallt am eu parodrwydd i sefydlu'r ysgol newydd yn eu festri, yn enwedig i Mr. Glyn Owen, Mr. Emlyn Jones a Mrs. Whiteside Thomas.

Mae pwysigrwydd cael Ysgol Feithrin yn y pentref yn amlwg i'r rhan fwyaf o'r trigolion yn enwedig y dyddiau hyn pan mae cymaint o fygythiad i iaith a diwylliant yr ardal o amryw fannau. Mae'n hanfodol felly ein bod yn sicrhau sylfeini cadarn i famiaith y Cymry bach ac hefyd fod y Saeson bach yn cael eu camau cyntaf i ddysgu'r iaith fel y cânt hwythau hefyd eu lle priodol a naturiol yn y gymdeithas. Tasg yr Ysgol Feithrin felly yw sicrhau y camau cyntaf yma, fel bod gwaith athrawon yr Ysgol Gynradd gymaint â hynny yn rhwyddach.

Mae'r Ysgol Feithrin yn agored am bedwar bore o'r wythnos, o ddydd Llun hyd at ddydd Iau. Yn ystod eu dwyawr yno, mae'r plant yn cael canu rhigymau Cymraeg, yn cael stori, ac wrth gwrs, drwy chwarae, yn y tŷ bach twt, yn y siop a gyda'r teganau, mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu geirfa ac i gael ymwybyddiaeth o liw a rhif. Mae hefyd gornel wisgo lle gall y plant ddifyrru eu hunain a thrwy hynny mynegi eu personoliaethau.

Mae dyled yr Ysgol Feithrin i'r pentref yn fawr iawn, ac mae ei dyfodol yn dibynnu ar yr ewyllys da yma. Buasai'r athrawes a'r gynorthwywraig, Mrs. Ann Llwyd Jones a Mrs. Siân Williams yn falch o groesawu unrhyw un o drigolion y pentref i weld gweithgareddau yr Ysgol Feithrin.



*Prysurdeb mawr a chwyno fod pethau'n ddrud yn y siop!*



*Dyma'r criw oedd yn fodlon cael tynnu eu lluniau. Bu ffotgraffydd yr Eco'n amyneddgar iawn yn disgwyl am y cyfle yma, credwch ni! Bu'n werth bob awr o'i amser.*

# LLONGYFARCHIADAU HOGIA!

**AR ÔL disgleirio drwy'r tymor cyflawnodd timau pêl-droed ardal yr Eco eu haddewid. Coronwyd tymor caled i'r ddau dîm lleol gyda llwyddiant ysgubol yn y gynghrair ac mewn amrywiol gwpanau. Cipiodd Llanrug bencampwriaeth Cynghrair Arfon a'r Cylch a daeth Llanberis yn ail. Ychwanegodd Llanrug ddwy gwpan sef Cwpan Iau Gogledd Cymru a Chwpan y Penrhyn at eu teitl ac enillodd Llanberis Gwpan Alves.**

**Trowch i'r cefn am fanylion a lluniau o'r gemau.**

# ECO'R WYDDFA

RHIF 27 MEHEFIN 1978

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*



**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed (Llanberis 580)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.

DEINIOLEN: Gwyndaf Roberts, 8 Ffordd y Gogledd (Llanberis 427)

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

WAUNFAWR: W. Vaughan Jones, Hafod y Coed (Waunfawr 387)


## AR WERTH

**Torrwr Gwair** 14" Batri (heb fatri) – £6.

**Cwpwrdd Dillad** – £2.

**Cadair Esmwyth** – £2

**Gwely Dwbl** (gwely sy'n plygu – math 'Z') – £5

**Bwrdd Gwisgo** (Dressing Table) – £1

Peter W. Hughes, Graianfryn, Stryd yr Orsaf, Llanberis

## YN EISIAU

**Cwt Garddio ail law** – Peter W. Hughes, Graianfryn, Stryd yr Orsaf, Llanberis.

# LLYTHYRAU



*Annwyl Olygydd,*

*Dyma lun pump o hen gymeriadau Llanberis, wedi iddynt ymddeol tua dechrau'r ganrif hon. Jac Roberts ar y dde, tad Maggie Roberts sy'n dal efo'r canu yng Nghapel y Wesla. John Parri, "yr Hen Bâr", brawd fy nhaid, hen lanc parchus ond am un nam – cawsai sbri bob rhyw dair blynedd. Dreifiai injian yn Chwarel Glyn. Treuliodd ddiwedd ei oes gyda ni yn London House. Nid wy'n cofio enw'r un yn y canol. Y nesaf – Dic Huws y 'Goat', a William Huws, Stryd y Dŵr, taid i Myrddin, un o Hogia'r Wyddfa.*

*Yn gywir,*

*Emlyn Jones.*

## FFYNNON PARC CLAWDD LLWYD

*Gan y diweddar William Humphreys, Oerddwr, Minffordd Terrace, Tan-y-coed.*



*Tybed a fuasech yn caniatáu rhyw gornel fechan yn yr Eco i ddarn bach o gân i ffynnon fach sydd ar gwr Clawdd Llwyd, mae hon wedi rhoi yn hael fel bwrlwm ar hyd y blynyddoedd i drigolion Tan-y-coed, pryd nad oedd tapiau dŵr mewn bod. Hyd heddiw mae'n dal i fwrlwm, a'i dŵr fel grisial yn loyw a glân, ychydig fel y cyfryw sydd o sôn am ein ffynhonnau a chredaf y dylai fod mwy o ddiddordeb yn cael ei gymryd ynddynt. Mae'r diweddar Mr. W. Humphreys wedi canu yn drawiadol iawn yn y cyswllt hwn. Roedd Mr. Humphreys yn hanu o hen deulu Cwmcloch, Beddgelert a bu yn arddwr ym Mhlas Pantafon am flynyddoedd. Magodd dyaid o blant ac mae tair o'i ferched yn byw yn Lloegr a phob un o'r tair dros eu pedwar ugain oed: Miss Humphreys a Mrs. Nightingale yn Llundain a Mrs. Baker yn Tiptree, Essex.*

*Roedd Mr. Humphreys, fy nhad yn hoff o brydyddu fel y dengys y gân fach i'r ffynnon ac ymddiddorai lawer yn y cynganeddion ac hefyd roedd yn gyfeillgar â'r diweddar Glan Rhyddallt. Nith i'r diweddar Mr. W. Humphreys ydyw Mrs. Jennie Hughes, Oerddwr, Minffordd Terrace, Tan-y-coed, Llanrug.*

*Yr eiddoch*

*Mrs. Baker (Gwen)*

*Tiptree,*

*Essex*

*Un o ddarllenwyr yr Eco*

### FFYNNON PARC CLAWDD LLWYD

Eiliaf gân i'r ffynnon gwyd
Ym Mharc Clawdd Llwyd i'm llonni
Yn ei gwely glân o frwyn
Mor lanwedd â mwyn lili
Gwedd ei hwyneb sydd yn ddrych
I'r nefoedd edrych ynddi.

Mynnodd dyn roi iddi do,
Cul amdo celf o'i chwmpas,
Llunio rhodfa lân a thlws
At riniog drws ei phalas;
Ni fu erioed forwynig fach
Mewn glanach gwely gwyrddlas.

Hi rydd yn rhad i bawb eu rhan,
Ar gryf a gwan mae'n gweini,
A chyn cychwyn ar ei rhawd
Pob tlawd ddiwellir ganddi,
Nid rhyfeddol,atsain bloedd
Y miloedd sy'n ei moli.

Llawn o hyd – nid fel y môr
A'i stôr yn drai ar droeon
Oer drwy'r haf er gwres di-ail
Yr haul ar ei hymylon,
Ond ni lwydda rhewynt du
I fferru dŵr y ffynnon.

DAW Y RHIFYN NESAF ALLAN:

**Dydd Iau, Mehefin 29**

* * *

Y DEUNYDD I LAW'R GOLYGYDDION PERTHNASOL ERBYN:

**Mehefin 21**

*1 Bryn Gro,*
*Llanrug,*

*Annwyl Olygydd,*

*Yn eich rhifyn diwethaf o* **Eco'r Wyddfa** *dangoswyd darlun o Seindorf yn croesawu Mr. a Mrs. Alves mewn carnifal yng Nghwm-y-glo a gofynnwyd seindorf pa le ydoedd. Seindorf Llanrug ydyw, ac er nad yw yn ddarlun clir iawn gallaf enwi rhai o'r dynion.*

*Yn hawdd iawn ei adnabod ar ochr dde i'r darlun mae J.E. Jones (Jackie) Glasdy, fy nhad Johnnie Jones (Cae Rhos) 8 Glanmoelyn, Ifan a Now Pritchard (Minffordd) a Hugh Griffith (Pen Rhiw) 19 Glanmoelyn. Ar y blaen, ac yn sefyll yn y canol mae Bob Pritchard (Cae Glas) a'i frawd John Pritchard (Penllel). Gyda llaw Bob Pritchard yw'r unig un sydd ar ôl o'r rhai uchod; mae'n byw yn William Street, Caernarfon.*

*Rwy'n deall mai seindorf pres oedd hwn a chofiaf fy nhad yn glanhau ei gorn melyn, pan oeddwn yn blentyn.*

*Bu Mr. a Mrs. Alves yn hynod garedig wrth y seindorf yma, ac yr oedd ganddynt dipyn o feddwl ohonynt. Rhoddodd Mr. Alves "uniform" iddynt ac offerynnau newydd. 'Rwyf wedi clywed mai dyma'r amser y newidwyd yr enw i Seindorf Arian yn lle Seindorf Pres. Mae gennym atgofion melys o Mr. a Mrs. Alves a'r seindorf yn Llanrug a llawer o le i ddiolch am eu caredigrwydd a'u gweithredoedd da i'r pentref.*

*Yn gywir,*

*Eirwen Williams*

## RHODD

**£1** – gan Mrs. M.L. Griffith, Minffordd, Bryn y Maen, Bae Colwyn.

**£1** – gan Elwyn Lloyd Williams, Bangor.

Dymuna Genod y Glyn ddiolch yn gynnes i bawb am sbonsro'r cerddwyr.


STORFA

Mace

S.&E. Jones

Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

# LLANRUG

CYMANFA BREGETHU – Cynhelir y Gymanfa Bregethu ar Mehefin 11 yng Nghapel y Bryngwyn. Pregethir am 10 a 5.30 gan y Parch. W. Bryn Roberts, Llanarmon-yn-Iâl, ac am 2 o'r gloch gan y Parch. E. Denzil James, Rhydaman.

ARHOLIAD CERDD (Piano) – Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n llwyddiannus mewn arholiadau canu'r piano, o dan nawdd Coleg y Colegau Brenhinol, Llundain. Gradd 1: Frances Jones, Bronwenda a Dafydd Meredydd Jones, Gwen-y-Wawr. Gradd 3: (gydag anrhydedd): Gwyn Meirion Roberts, Gregynog. Hyfforddir hwy gan Mrs. Megan Roberts, Gregynog.

CLWB PÊL-DROED – Cynhelir cyfarfod blynyddol y Clwb Pêl-droed yn y Sefydliad Coffa am 7.30 nos Fawrth, Mehefin 27. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y bêl-droed. Gwneir apêl arbennig i rai sydd â diddordeb mewn rhoi help llaw gyda'r tîm dan 15 oed i ddod yno; yn enwedig y rhieni.

Etholir pwyllgor ar gyfer y tymor nesaf, ac y mae angen gweithwyr sy'n fodlon helpu gyda'r gwaith o gasglu arian tuag at gynnal y Clwb.

Cynhelir Taith Gerdded tuag at y Clwb ar ddydd Sadwrn, Mehefin 3, – ffurflenni i'w cael oddi wrth yr ysgrifennydd – Dafydd Thomas, 'Bron-y-Nant'. Bydd yr arian yn cael ei glustystafelloedd newid a'r ystafell luniaeth. Ein diolch fel pwyllgor i bawb a fu'n cefnogi'r tim yn ystod y tymor, ac i bawb a gyfrannodd – yn ariannol neu drwy weithred. Daeth y tîm â chlod i'r pentref yn barod – gydag ymdrech a chefnogaeth yr ardal i gyd, bydd parhad ar eu llwyddiant y tymor nesaf.

BEDYDDIO – Yng Nghapel Mawr, bore Sul cyntaf o Fai a'r Parch. W.O. Roberts yn gweinydd, bedyddiwyd Gareth Arfon, mab bychan Mr. a Mrs. Eryl Charles Davies, Rhoslan, Bethel.

CRONFA RIGARUG – Yn ystod y mis nesaf daw casglwyr o amgylch o dy i dy i gasglu arian tuag at nod Llanrug. Gobeithir gwneud casgliad misol. Cynhelir Ffair Haf nos Iau, Gorffennaf 6 am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail. Mae 'Plat y Brifwyl' yn gwerthu'n dda – brysiwch os am gael un – pris £15 – siec neu arian i "Cronfa Rigarug" – Gregynog, Llanrug, ffôn Caernarfon 5220. Diolch i'r rhai a fu'n gwerthu baneri o amgylch y pentref ddydd Sadwrn Mai 20 ac i bawb a fu'n hael eu cyfraniadau tuag at yr achos.

STONDIN YN Y CARNIFAL – Drwy garedigrwydd Pwyllgor y Carnifal, cafodd Pwyllgor Rigarug ganiatâd i osod stondin yn y carnifal a gynhelir ar Mehefin 24. Stondin gacennau fydd hon, a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich addewidion. Cysylltwch â Mrs. Carys Jones, Mrs. Eirlys Pierce neu Mrs. Beth Ann Williams.

FFAIR HAF – Cynhelir Ffair Haf Rigarug nos Iau, Gorffennaf 6 am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail. Byddwn yn ddiolchgar os gallwch gyfrannu mewn unrhyw ffordd; bydd y canlynol yn falch o dderbyn rhoddion ac addewidion cyn gynted ag sydd bosib. Cacennau: Mrs. Horman, Venice, Mrs. Williams, Bod Fair. Gwaith Llaw: Mrs. Owen, Trigle, Mrs. Carys Jones, Carwyn; Eliffant Gwyn (a hen recordiau a phatrymau gwau a gwnio) : Mrs. Enid Wh. Thomas, Dolwar. Dillad Cystal a Newydd: Mrs. Eryl Roberts, Sycharth, Mrs. Eirianwen Thomas, Bron-y-Nant. Llyfrau a Chomics: Mrs. Ann Llwyd, Pros Kairon; Poteli: Mrs. Beth Ann Williams, Disgwylfa, Teganau Ail-law: Mrs. Lovatt, Brwynog; Bwyd: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel, Mrs. Rhian Jones, 3 Minffordd. Da-da: Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel.

NOSON GOFFI – Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus yn y Cwt Band dan nawdd y Pwyllgor y Merched. Enillwyr y rafflau oedd: Bocs Nwyddau: c/o Curry's Caernarfon; Pwdl: Caron Owen, 1 Glanffynnon; Basged Wnio: Mr. McNall, Penllel; Gwin: Mrs. Bryn Lewis, Dwyfor; Enwi Ci: Mrs. Arfonia Jones, Groeslon Marc. Diolchwyd i bawb am roddion a chefnogaeth gan Mrs. Heulwen Williams, Glanmoelyn.

CYMDEITHAS CHWIORYDD, (Capel Mawr) – Nos Iau, Mai 4 cynhaliwyd noson goffi ola'r tymor. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Nancy Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau i'r chwiorydd oedd yn wael, a dymuno gwellhad buan iddynt. Diolchwyd i lawer o gyfeillion am eu rhoddion tuag at y noson goffi. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Griffith, 19 Glanmoelyn; Mrs. Williams, 10 Glanmoelyn, a Mrs. Jones, 8 Glanmoelyn. Diolchwyd iddynt gan y llywydd.

Nos Iau, Mai 11 aeth y chwiorydd, ynghyd a'u cyfeillion am drip rownd Sir Fôn a galw yn y Star Motel, Gaerwen ar y ffordd yn ôl a chael pryd o fwyd campus. Yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn, a chlo ardderchog i'r tymor. Trefnwyd y noson gan Mrs. Beryl Thomas, Gerallt a mawr yw ein diolch iddi. Bydd y noson goffi yn ailddechrau yn yr Hydref.

YSGOL SUL (Pontrhythallt) – Am ddysgu'r Maes Llafur, gwobrwywyd y rhai canlynol yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel Croesywaun: Judith Jones, Tom Regan, Martin Reed Davies, Iolo a Ieuan Griffith, Iwan Llyr, Dianne, Sharon ac Ian Thomas, Martin Roberts a Marian Roberts. Mrs. M. Lloyd Williams a Mrs. E.Wh. Thomas. Bu Gwen Lloyd Williams, Tan-y-Gaer yn llwyddiannus yn yr Arholiad Ysgrifenedig a'r Sirol. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Bydd taith hanesyddol dan nawdd y Gymdeithas Undebol yng nghwmni Miss Mat Pritchard yn mynd ddydd Sadwrn, Mehefin 3. Byddant yn ymweld â Thanybwlch, Maentwrog, Harlech, Llandanwg a Llanfihangel y Traethau.

SWYDD NEWYDD – Llongyfarchiadau i Mr. Twrog Ellis Jones, Pros Kairon, Glanffynnon ar ei benodiad yn Athro Bro Ymgynghorol i ddysgu ail iaith yn nhalgylch Amlwch. Ar hyn o bryd mae'n athro daearyddiaeth yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd ym mis Medi.

GADAEL YR ARDAL – Erbyn hyn y mae Mr. a Mrs. J.B. Creek, Dobarrie, Glanffynnon wedi gadael yr ardal am Benrhosgarnedd, Bangor. Hyderwn yn fawr y bydd iddynt ymgartrefu yn eu cartref newydd.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu'r aelodau yn ddiweddar yn y Rheithordy. Arweiniwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs. Williams, Y Rheithordy. Gwnaed trefniadau terfynol ar gyfer yr ymweliad ag Erddig, Wrecsam, yn ystod mis Mehefin. Tynnwyd allan hefyd raglen ddiddorol ar gyfer tymor 1978–9. Gwnaed y te gan Mrs. Williams, y Rheithordy a diolchwyd iddi gan amryw o'r aelodau.

BEDYDD ESGOB – Bydd ei Ras Archesgob Cymru yn ymweld ag Eglwys Sant Mihangel ar Mehefin 11 i weinyddu'r Sacrament o Fedydd Esgob a bydd oddeutu pedwar ar ddeg yn cael eu conffirmio.

CYMDEITHAS GWEINYDDESAU – Cyfarfu'r Gymdeithas yn Rheithordy, Llanrug yn ystod mis Mai. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a'r gwr gwadd oedd y Parch. Jeffrey Hughes, Curad Caernarfon a dangosodd sleidiau prydferth o'r hen Sir Gaernarfon. Diolchwyd iddo gan amryw o'r aelodau. Y gwestwragedd oedd Mrs. M. Spratt, Glanllyn, a'i chwaer Miss A.C. Jones a Mrs. Williams, Y Rheithordy.

YSGOL SUL (Y Capel Mawr) – Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Ysgrifenedig: Dan 9: Nia Wyn Jones, Dafydd Meredydd Jones ac Olwen Meredydd Jones. Dan 11: Nigel Wyn Griffith ac Eilir Jones. Bu Nia a Dafydd yn llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol hefyd.

GŴYL GORAWL – Aeth cynrychiolaeth dda o Lanrug i Ŵyl Gorawl Eryri a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llanberis. Yr arweinyddion oedd Mr. James Griffiths, a'r Parch. D. Gwynfor Williams, a'r organydd oedd Mr. Huxley Thomas. Gwobrwywyd bob un o blant Ysgol Sul Sant Mihangel.

I GANADA – Deallwn fod Mr. a Mrs. I. Jones, Penrhos wedi mynd am wyliau at eu mab i Ganada a hyderwn iddynt gael siwrnai hapus ac y byddant yn cael seibiant hapus yno.

CLWB BLODAU'R GRUG – Mr. T.H. Williams o'r Waunfawr oedd gwr gwadd cyfarfod mis Mai a chafwyd prynhawn o hwyl a difyrrwch yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Mrs. Mary Lloyd Williams ac eraill.

DEISEB – Cafwyd ymateb ardderchog i'r ddeiseb am Iawndal Cyfartal i'r Chwarelwyr sydd yn dioddef o Lwch y Garreg. Cyflwynir hi i'r Cyngor Sir ac yna i'r Senedd. Hyderwn yn fawr y bydd llwyddiant ar y gwaith a wneir i sicrhau iawndal teilwng i'r rhai sy'n dioddef.

GWAELEDD – Deallwn fod Mrs. Watson, 11 Rhos Rug a Mrs. Douglas Jones, Tyddyn Elan wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Da deall fod y ddwy yn gwella yn foddhaol ac o gwmpas unwaith eto.

YN YR YSBYTY – Ein dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr. Robert Williams, Derlwyn, Mr. Arwyn Roberts, Hafle a Mrs. Griffith, Gilfach, Ffordd Glanffynnon.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mrs. Ambler a'r teulu, Tanhafodlas, Ceunant ar farw Mr. Jack Ambler. Newydd symud yma o ardal y Cotswolds, yn Lloegr y mae Mrs. Ambler a bu farw ei phriod ymhen ychydig ar ôl iddi ymgartrefu yn Nhanhafodlas.

Ein cydymdeimlad hefyd â Mr. a Mrs. John Williams, Gweledfa, ar farwolaeth chwaer Mr. Williams.

MARW – Mewn cartref i'r henoed ym Mae Trearddur Ynys Môn, bu farw Mrs. Maud Berry a arferai fyw ym Menai Ville, Ceunant. Yr oedd bron â bod yn 92 oed.

CROESO – I dri baban bach newydd i'r pentref – i Esyllt, merch Mr. a Mrs. Glyn Thomas, Tir na N'og, Stad Talybont – chwaer i Caryl Siân; Llŷr Siôn, mab Mr. a Mrs. John Roberts, Bedw Gwynion – brawd i Lowri Angharad; ac i Morgan, mab Mr. a Mrs. Idwal Williams, Disgwylfa – brawd i Owain.

MERCHED Y WAWR – Cafwyd gwledd o noson yng nghwmni'r Dr. John Gwilym Jones. Soniodd am wahanol agweddau o lenyddiaeth, yn cyfeirio at feirdd, dramodwyr a nofelwyr. 'Roedd ei sgwrs yn agoriad llygad i lawer ohonom. Rhoddwyd adroddiad am y Cyngor Cenedlaethol a gynhaliwyd ddechrau Mai gan yr Ysgrifenyddes: Mrs. Margaret Jones. Penderfynwyd mynd i Amgueddfa Lloyd George a gorffen y noson ym Mhlas Gwyn, Pentrefelin ar y wibdaith. Enwau ac arian i law erbyn Mehefin 3. Gwelwch y posteri am fanylion.

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs. Megan Roberts, Gregynog ar ei phenodiad yn Bennaeth Adran Cerddoriaeth, Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi.

CROESO'N ÔL I'CH HEN ARDAL – i Mair a Gwyndaf Lloyd Hughes, Rhodri a Gwion, 20 Glanffynnon, Llanrug. Mae Mair a Gwyndaf wedi bod yn byw yn Hen Golwyn ers rhai blynyddoedd.

## CYSTADLEUAETH Y MIS




***Llun (neu Lyn) eisiau pennawd. Anfonwch eich cynigion at unrhyw un o'r golygyddion. Bydd gwobr o £1 am y pennawd a ddyfernir yn orau.***


**R.Hughes Jones a'r Mab**

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus – prisiau rhesymol

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## Teyrnged i Gwyndaf



*Mr. E. Gwyndaf Evans, ynghyd a'i gyd-athrawon mewn cinio ffarwel.*

YMDDEOLIAD
MR. E. GWYNDAF EVANS

Ar ddiwedd Ebrill fe gollodd yr ysgol un arall o'r athrawon a fu yn ei gwasanaethu yn ymroddedig ac yn glodwiw am lawer blwyddyn trwy ymddeoliad Mr. E. Gwyndaf Evans ein hathro Ysgrythur. Ond fel y gŵyr pob darllenydd, nid athro effeithiol yn ei bwnc yn unig oedd Mr. Evans. Fe wnaeth gyfraniad sylweddol i'r Eisteddfod ac i Gerdd Dant yn yr Ysgol. Nodwedd llai adnabyddus i'r cyhoedd efallai, ond nid i'r disgyblion, oedd y pwyslais a roddai ar yr agwedd fugeiliol o swyddogaeth yr athro ac yr oedd bob amser yn barod iawn â chyngor neu air o gysur i unrhyw ddisgybl mewn unrhyw fath o anhawster personol.

Adlewyrchiad o'r tair agwedd yma, yr athro pwnc, yr Eisteddfodwr a'r bugail oedd ei anrhegion i'r ysgol wrth ymadael. Sefydlodd Wobr Ysgrythur ar gyfer y gorau neu'r goreuon mewn Ysgrythur yn arholiadau'r Cyd-bwyllgor Addysg Gymreig. Rhoddodd gwpan ar gyfer y côr Cerdd Dant buddugol yn Eisteddfod yr Ysgol. Yn olaf, sefydlodd Gronfa Gysur. Pwrpas y Gronfa yma yw – a dyfynnaf ei eiriau ef "a sefydlwyd gan E. Gwyndaf Evans ar ei ymddeoliad – i'w gweinyddu gan y Prifathro i galonogi disgyblion mewn gwaeledd neu argyfwng". Defnyddiodd yr arian a gasglwyd gan y plant yn rhodd iddo i sefydlu'r Gronfa yma.

Yr wyf fi yn ddiolchgar iddo am ei deyrngarwch ac am lawer trafodaeth ar broblemau yn gysylltiedig â'r ysgol a fu o gymorth mawr i mi. Dymunaf hir oes a phob hapusrwydd iddo ef a Mrs. Evans.

W.E. Thomas
Prifathro.

GWERTHFAWROGIAD O WASANAETH
GWYNDAF EVANS
gan Evie Roberts

Daeth y Parch. E. Gwyndaf Evans yma yn Ionawr mil naw pum saith – dau dymor yn gynt na mi. Cyfnod o un mlynedd ar hugain. Heddiw, cyflwynwn ein hagoriad ni iddo – nid iddo i'w ddefnyddio i agor y drws i fynd oddi yma, ond i ddatgan ein dymuniadau da iddo ac iddo gael tragwyddol heol i ddychwelyd i'n gweld cyn amled ag yr hoffa wneud hynny – a balch fyddwn o'i groesawu'n ôl.

Un o'r amgylchiadau hynny pan yw un yn gorfod meddwl ddwywaith beth i'w ddweud yw amgylchiad fel hwn. Mae'n gyfarfod i ddiolch – dim am fod Mr. Evans yn ymddeol! Cofiwch! ond i ddiolch o galon iddo am bopeth a gyfrannodd i hyrwyddo a chyfrannu – nid i gannoedd ond odid i rai miloedd o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, yn ogystal ag i bobl hŷn yr ardal hon ym myd addysg bellach.

Profodd cenedlaethau o blant a phobl ifanc fel chwi, ei fod bob amser yn barod i sgwrsio â chwi. Bob amser yn rhoi gorau ei allu i chwi – rhoi ei amynedd, ei degwch a'i gymwynasau parod.

Gwnaeth ddiwrnod da o waith yma. Er ei brysurdeb gyda phethau allanol, deuai ei waith bob dydd yn gyntaf. Os byddai'n darlithio yn Llundain, Caergrawnt neu Gaerdydd y noson cynt byddai yn yr ysgol yn ddiffael erbyn caniad bore drannoeth.

Cofiwn am ei gyfraniad gwerthfawr i drefniadau'r Orsedd yn ein Heisteddfod flynyddol yma. Ei bartion canu penillion syfrdanol, ei drefniadau trylwyr at achosion da, ei air o gysur i aml deulu, ac yn bennaf ei ofal amyneddgar a bendithiol am y Gwasanaeth Boreol.

Mae rhai ohonom o blith yr athrawon wedi treulio nifer dda iawn o flynyddoedd yn ei gwmni. Profiasom ei gwmniaeth ddifyr, ei garedigrwydd, ei hwyl a'i hynawsedd.


Fe garwn ddiolch iddo o waelod calon am ei amynedd yn rhoi benthyg ei het i mi i'r plant gael tynnu ei llun. Fe'i cefais hi ganddo am oddeutu pymtheng mlynedd! yn 'regiwlar' chwedl Daniel Owen. Er enwogrwydd ein cyfaill daliai'r het i'w ffitio drwy gydol y blynyddoedd hyn.

Fe wyddom i gyd am ei aml ddoniau, fel athro llwyddiannus, pregethwr dawnus. Cofiaf ef yn pregethu yn rymus ym Mhenygroes bron ddeugain mlynedd yn ôl pan oeddwn yn fachgen ysgol. Bardd a datgeinydd o fri. Dewin mawr ein Gŵyl Genedlaethol. Dyn cadarn ei argyhoeddiad – yn sefyll yn y bwlch tros yr iaith a'n treftadaeth.

Cofiwn mai'r Ysgrythur oedd, ac a fydd prif bwnc Mr. Evans. Cafodd y pleser mawr o ledaenu, yn ei ffordd hapus a dihafal ei hun, neges Efengyl Crist i laweroedd o'r Ysgol hon, gan obeithio y byddai rhywun o'i ddisgyblion, o bosibl, yn: 'torri'r bara
a rhywrai'n rhannu'r gwin'.

Ein dymuniad diffuant ni i gyd yma yw am i chwi Mr. Evans a Mrs. Evans gael holl fendithion bywyd a hapusrwydd i'r dyfodol. Tebyg y caiff Mr. Evans anrhydeddau lu eto. Gawn ni fel athrawon a disgyblion ddechrau drwy roi'r MBE iddo, sef Ymddeoliad yn llawn – Melyster, Bendith ac Esmwythdra.


Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 4781



GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898



Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

Llanberis
FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# YSGOL BRYNREFAIL

YMWELWYR I'R YSGOL

Ar yr ail o Fai, rhoddwyd perfformiad yn yr ysgol gan y "Campden Wind Quintet" i'r dosbarthiadau cyntaf, ail a thrydydd. Rhoddwyd sgwrs gan aelodau'r pumawd ar yr offerynnau yr oeddynt yn eu defnyddio.

Yn ystod y mis bu Mr. Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch Ffyrdd, a Chwnstabl Elwyn Parry yn yr ysgol yn dangos ffilmiau ar ddiogelwch ffyrdd i ddosbarthiadau 5D a 4D.

TRIPIAU

Ar y trydydd o Fai, bu disgyblion o ddosbarthiadau pedwar a chwech yn Theatr Gwynedd i weld ffilm o ddrama John Shaffer: "The Royal Hunt of the Sun". Ar y pumed o Fai, bu dosbarth Cymraeg y chweched dosbarth i Ysgol Undydd yng Ngholeg Prifysgol Bangor.

Ar y Mai 10, bu rhai o'r pumed dosbarth yn Theatr Gwynedd yn gwylio perfformiad o ddrama Shakespeare, "Midsummer Night's Dream".

Yn ystod y mis bu dosbarthiadau 1P,1J a 1L yn ymweld ag "Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru" yn Llanberis.

Bu rhai o aelodau'r pumed dosbarth sy'n gadael eleni yn ymweld â Chaer a'r Rhyl ar Mai 19.

NEGES EWYLLYS DA

Darllenwyd Neges Ewyllys Da Ieuenctid Cymru gan rai o ddisgyblion y pumed a'r chweched dosbarth ar fore Iau, Mai 18. Darllenwyd y neges mewn pum iaith – Cymraeg, Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg a Saesneg.

LLWYDDIANT I DRI O DDISGYBLION YR YSGOL

Llongyfarchiadau i Siân Gibson, dosbarth 2A ar ennill y gystadleuaeth unawd dan bymtheg yn Eisteddfod Môn. Cafodd gwpan fel gwobr.

*Sian Gibson*



Yn eisteddfod Clynnog, enillodd Annette Roberts, 5A, gwpan am ganu'r piano, ac enillodd Adrian Evans, 3A, gwpan am ganu'r saxophone. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.



*Annette Roberts*



*Adrian Evans*

CWPAN TŶ 1978

Eleni eto Elidir oedd y tŷ buddugol yn yr ysgol. Ar ôl yr holl weithgareddau – Yr Eisteddfod, Rhedeg Traws Gwlad, Mabolgampau, Hoci a Phêl-droed – dyma'r marciau terfynol:

Elidir 676
Eilian – 583
Gwyrfai – 520
Eryri – 424½

DIOLCH ANWEN
– CROESO DEWI

Carwn ddiolch yma i Anwen Jones, Penisarwaun, am ei chyfraniad i'r dudalen hon ar hyd y flwyddyn. Bydd Anwen yn gorffen yn yr ysgol ddiwedd y tymor, a dyma'r tro olaf iddi gyfrannu tuag at y dudalen. Diolch iddi am ei pharodrwydd i gynorthwyo a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Dewi Williams, Seion, sydd ar hyn o bryd ar ei flwyddyn gyntaf yn y 6ed dosbarth fydd yn cario'r gwaith ymlaen. Croeso Dewi i'r Eco.


**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN



10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

*Ffôn: Llanberis 491*

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


15ed o ORFFENNAF

# Carnifal Llanberis

DAI DAVIES, Golgeidwad Wrecsam a Chymru yn ei agor.

Eleni mae'r gwobrau am
Dablo Stryd Ar Olwynion (Agored)
yn £10; £5 a £2.50

HEFYD
Bydd Gwobr Arbennig
o £5 i'r Tablo Gorau yn Llanberis

Ewch ati'n LLU i wisgo'i fyny

COFIWCH
hefyd am y daith gerdded noddedig ar y 10ed o FEHEFIN. (Ffurflenni i'w cael gan: Mr. Iwan Ll. Williams, Bryn Idris, Stryd Warden, Llanberis.)

# CWM Y-GLO

NEWID CARTREF — Mae Mr. a Mrs. Alwyn Morris, Glanbogelyn, a'u pedwar plentyn, Dilwyn, Gwyn, Dewi a Delyth, ar fin symud i'w cartref newydd ym Merddyn, Ceunant. Gan fod y teulu mewn busnes yn y 'Becws', siawns na chollwn olwg arnynt. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

NOSON GOFFI — Cynhaliwyd Noson Goffi ac Arwerthiant llwyddiannus iawn yn yr ysgol yn ddiweddar, yr elw er budd tîm pêl-droed y plant. Enillwyd y ddol Gymreig — rhoddedig gan gefnogwr caredig — gan Miss Hoddle, Bryn Hyfryd, y bocs nwyddau gan Mrs. Catherine Foulkes, 2 Tan y Bryn, gyda Mrs. Dorothy Jones, Arosfa yn ennill y botel sieri a roddwyd gan Mrs. Enid Price.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bocs nwyddau, ac am bob cefnogaeth a gafwyd er sicrhau llwyddiant y noson.

Fel diweddglo i'r tymor cyntaf yma, cafodd y tîm drip i Wrecsam i weld y gêm rhwng Cymru ag Iwerddon. Hawdd ceolio iddynt fwynhau'r wibdaith — a'r canlyniad!

GWAELEDD — Mae amryw o'r pentref naill ai wedi bod, neu yn dal i fod mewn ysbytai. Gyda'n cofion atynt, dymunwn wellhad buan iddynt i gyd. Mrs. Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd, Mrs. Carol Evans, 15 Dolafon, Miss Hoddle, 3 Bryn Hyfryd, Mrs. Nora Sinclair, 8 Dolafon, Mrs. Esme Jones, 24 Dolafon, Mr. Islwyn Humphreys, 19 Dolafon ac Islwyn Jones, mab Mr. a Mrs. Sam Jones, Glan y Don.

CYDYMDEIMLO — Cydymdeimlwn â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth: Mrs. Eluned Thomas — athrawes yn yr ysgol gynradd — colli ei mam.

Mrs. Gladys Williams, Ashley House — colli dau frawd yng nghyfraith.

Mr. Edgar Williams, Fron Gader — colli brawd.

MARWOLAETH — Yn ystod y mis, bu farw Miss Nia G. Greenwood, Glenholme, 'Rallt Goch, yn 76 oed. Cartrefodd hi a'i diweddar chwaer yn y Cwm bron i 30 o flynyddoedd yn ôl. Gweinyddes fu tra parodd ei hiechyd, ond ychydig o'i chwmni a gawsom am amser maith oherwydd gwaeledd. Gallodd ddod i'n plith fwy o lawer yn ddiweddar a chofiwn am ei charedigrwydd a'i chefnogaeth i bopeth. Trysorwn hefyd ambell air o galondid neu werthfawrogiad. Gweinyddwyd yn Amlosgfa Bangor gan y Parch. G. Williams, a chydymdemlwn a Dr. Greenwood, ei hunig frawd.

DIOLCH — Dymuna Miss Blodwen Williams, Afallon, a ddathlodd ei phenblwydd yn 95 yng nghartref Maesincla ar Ebrill 25, ddiolch yn gynnes i bawb am y llu llythyrau, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur

COLLED — Trist iawn oeddym fel pentref o glywed am farw Mr. Owen Wyn Williams (Now Wyn) ar Mai 3, ag ef eto ond 58 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. Robert a Mrs. Kate Roberts, 7 Stryd Newydd. Bu ei angladd ar Mai 10 yn Eglwys y Santes Fair, Long Ditton, Surrey. Gedy weddw, dau fab a dwy ferch, dwy wyres ac un ŵyr. Cydymdeimlwn â'r teulu uchod, ac â'i dair chwaer — Mrs. Jennie Hughes, Deiniolen, Mrs. Lilian Williams, Caernarfon a Mrs. Nellie Wyn Pritchard, 23 Dolafon, a'u teuluoedd, ynghyd â Mrs. Ellen Williams, 7 Stryd Newydd.

'Roedd Owen Wyn wedi ei ddonio â llais tenor swynol dros ben, a phan yn llanc ifanc yn y Cwm, bu'n fwy na pharod bob amser i roi ei wasanaeth i unrhyw achos teilwng. Yn 1940, ag yntau'n ugain oed, daeth yr alwad iddo ymuno â'r lluoedd arfog, ac ymunodd â'r Gwarchodlu Cymreig. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd yr anrhydedd ar lawer achlysur, i ganu gyda'r diweddar enwog David Lloyd. Yn wir bu canu yn rhan bwysig o'i fywyd gydol ei oes — yn y Gobeithlu, Yr Ysgol, mewn Eisteddfodau a chyngherddau, ac yn nyddiau blin y Rhyfel.

Wedi cartrefu yn Lloegr, bu'n weithgar am flynyddoedd gyda'r Lleng Brydeinig, a chyflwynodd Cangen "Ditton's & Hinckley Wood' fathodyn aur iddo yn 1966.

Meddyliai y byd o Gwm-y-glo a bro ei febyd, ac ymwelai â'r ardal yn gyson. Ymfalchiai yn yr iaith Gymraeg, a dyna un rheswm mae'n siŵr, am y diddordeb arbennig a gymerodd yn "Eco'r Wyddfa" o'i ddechreuad, a bu'n un o'r rhai cyntaf ei gyfraniad. Gwerthfawrogai'n fawr lafur cariad pawb oedd yn gysylltiedig â'r fenter. Gofidiwn gyda'i deulu trallodus am ei farw cynnar.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant, gyda diolch arbennig i Mr. a Mrs. Alun Jones, Carreg y Frân, am eu caredigrwydd.

MERCHED Y WAWR — Bu rhai o aelodau'r gangen leol ym Modeilio, Mon ar Ebrill 19 yn gweld y crefftau bro sydd yn cael eu harddangos yno. Aethpwyd â hwy o amgylch y lle gan Mrs. Jones, y perchennog, a chawsant gyfle i brynu nwyddau oedd ar werth yno. Cyn cychwyn adref mwynhawyd lluniaeth derbyniol iawn.

Treuliwyd nos Fercher, Mai 17 yn cynnal y noson goffi flynyddol gyda stondinau moes a phryn. Gwnaed elw eithriadol o dda, ac fe aiff yr arian dderbyniwyd i roddi gwibdaith i bensiynwyr y pentref. Y Rhyl fydd cyrchfan y wibdaith y flwyddyn hon, a chaiff y dyddiad ei hysbysebu ar ôl i'r pwyllgor gyfarfod.

Enillwyr y raffl oedd Mrs. Susan Jones, 2 Dolafon; Nia Hughes, 17 Dolafon; Goleufryn; Mr. Aled Evans, Ty Newydd, a Mrs. Alice M. Morris, Lleifior, Llanrug

Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni arferol tuag at achos sydd yn ein galluogi fel cangen i roddi cymaint o bleser i'n dinasyddion hynaf.

LLONGYFARCHIADAU — Bydd Mrs. Trefor Owen, Glasfryn, yn 87 oed ar Fehefin 2. Dymuna'r cymdogion benblwydd hapus iawn iddi, a gobeithio y caiff nerth ac iechyd i fwynhau llawer pen-blwydd arall.

UNDEB Y MAMAU — Yn absenoldeb y Rheithor agorwyd cyfarfod Undeb y Mamau drwy Weddi gan Mrs. J.E. Watkins, Dolwen. Llywyddwyd gan Mrs. Williams, Y Rheithordy. Tynnwyd allan raglen ddiddorol ar gyfer tymor 1978–79. Y gwestwragedd oedd Mrs. Owen, Isfryn, Mrs. Watkins, Dolwen a Mrs. Jones, Gwesty'r Snowdon. Y cyfeilydd oedd Miss C. Hughes.

GŴYL GORAWL — Llongyfarchwn holl blant Ysgol Sul Sant Gabriel ar eu llwyddiant yng Ngwyl Gorawl Eryri a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# DEINIOLEN

IAWNDAL I CHWARELWYR — Casglwyd bron i 2,000 o enwau o ardal Dinorwig, Deiniolen a Phenisarwaun i wneud deiseb i geisio sefydlu cynllun iawndal i Chwarelwyr sydd yn dioddef o'r aflwydd Pneumoconiosis, heb anghofio'u teuluoedd a gweddwon sydd wedi marw o effaith yr aflwydd yma. Bwriedir i'r cynllun fod yn debyg i'r cynllun iawndal i'r Glowyr. Y mae'r Llywodraeth wedi rhoddi £100m tuag at gynllun iawndal i'r Glowyr. Y mae deisebau tebyg yn cael eu harwyddo mewn ardaloedd Chwarelyddol eraill yng Ngwynedd. Gobeithir cael tua 20,000 o enwau cyn diwedd yr ymgyrch er mwyn tynnu sylw'r Llywodraeth at angen y Chwarelwyr.

Ysgrifennydd Pwyllgor yr Ymgyrch
Yn Neiniolen yw'r Cynghorydd
Jacob James.

ENILLWYR CLWB 200 Apêl Gwaun Gynfi mis Ebrill: — 1af: £15: Rhif 122 — Gwyn Parry, Bro Dawel, Deiniolen, 2il: £10: Rhif 47: — Nesta Williams, Rhwng-y-Ddwyryd, Deiniolen.
Mis Mai: 1af: £15:Rhif 131 — John Eryl Thomas, Tan-y-Buarth, Bethel. 2il: £10 — Robert R. Woodlock, 15 Maes Gwylfa, Deiniolen Rhif 185

EGLWYS LIBANUS, Clwt-y-bont — Llongyfarchion i Griffith Orwig Lloyd Jones, a Catherine Lloyd Lewis, disgyblion yn Ysgol Sul Eglwys Libanus, ar ennill ohonynt y wobr aur yn yr Arholiad Llafar am 1978.

LLONGYFARCHIADAU — i Gareth Owen, 29 Stryd Newydd am fod yn llwyddiannus gyda'i arholiadau cerddoriaeth Gradd 5; gyda'r biano Gradd 3 (Theory) Ysgol Gerddorol Frenhinol. Disgybl yw i Miss C. Williams, Summer Hill, Llanberis.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd cyfarfod misol y pwyllgor yn y cwt band nos Fercher, Mai 10. Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â'r ffaith mai dim ond £4.50 y flwyddyn a dderbynia pensiynwyr ardaloedd gwledig tuag at gost teithio ar fws. Penderfynodd y pwyllgor ofyn am gymorth cynghorwyr mewn perthynas â'r modd y gellir cwyno am yr annhegwch y mae pensiynwyr mewn mannau fel Deiniolen yn brofiadol ohono.

Cynhelir Taith Ddirgel eleni ar Sadwrn, Mehefin 17. Cesglir yr enwau gan Mr. Meirion Jones a Mr. Ifan Bryn Roberts.

DIOLCH — Dymuna Miss Kathleen Jones, gynt o'r Crown ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion oll am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU — am nofio 800 medr ym maddonau Bangor ar Ebrill 28 i Nicholas Thomas, 2 Tai Caledffrwd, Clwt-y-bont, a Bryn Jones, Minafon, Clwt-y-bont.

— i H. Mervyn Williams, 10 Tai Marian ar fod yn llwyddiannus yn yr arholiad H.N.D. mewn Gwyddoniaeth Labordai Meddygol.

Addysgwyd ef yn Ysgol Gwaun Gynfi, Ysgol Brynrefail, Llanrug, Coleg Technegol a Gwyddoniaeth Llandaf, ac Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Mae yn awr yn gweithio yn Labordy Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

Dymuna M. Medwyn Williams (gynt o Ddeiniolen) ond yn awr o Lanrug ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig ag anfon yr holl gardiau, arian ac anrhegion ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain oed ar 27 Ebrill, diolch o galon i bawb. Hefyd dymunwn yn dda iawn i'w nain sef Mrs. Myfanwy Thomas, Ffordd Marian am fod yn nain unwaith eto i Emyr Wyn, mab bach i Elnir a Gwyn o Borthaethwy, ond y ddau'n dod o Ddeiniolen. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

DIOLCH — Dymuna Mr. a Mrs. Gwynedd Jones, 2 Marian Terrace ddiolch i bawb am eu caredigrwydd pan anwyd eu mab, Arwel Wyn.



*Diolch yn fawr iawn i Mrs. G. Owens, 5 Heol Ioan, Llanrwst am y llun diddorol yma o Ysgol Dinorwig. Mae Mrs. Owens yn yr ail res o'r gwaelod yn y llun, gydag Ellis ei brawd wrth ei hochr. Yn anffodus, mae amryw o aelodau'r grŵp wedi marw bellach.*

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ..............

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254

# WAUNFAWR



**YR AELWYD** — Aeth deunaw o aelodau'r Aelwyd i fwrw'r Sul yng Nglanllyn yn ddiweddar o dan ofal Dic a Stephen Jones. Bu'n flwyddyn lwyddiannus yn hanes yr Aelwyd, yn wir torrwyd cwys newydd trwy ddechrau parti dawnsio gwerin. Daeth y parti'n ail yn Eisteddfod Sir Aelwydydd yr Urdd ond bu rhaid gwrthod y cynnig o fynd i'r Eisteddfod yn Llanelwedd gan fod rhai o'r aelodau'n brysur gydag arholiadau level "O" ac "A". Cewch gyfle i'w gweld yn dawnsio yng Ngharnifal y Waunfawr ar Orffennaf 15.

Yn y llun fe welir:
Ian Williams, Ian Johnstone, Alan Griffiths, Nia Pritchard, Ann Dawson, Sian Williams a Janet Dawson.
Llun: Iolo Huws-Roberts.

EGLWYS SANT IOAN — Y mae'r Parch. R. Jeffrey Hughes a fu'n giwrad ym Mhlwy Llanbeblig ac yma am ddwy flynedd, wedi ei benodi'n ficer i Blwy Rheithorol Caergybi. Dymunwn bob bendith a llwyddiant iddo yn ei faes newydd a diolchwn iddo am ei wasanaeth pan yn ein plith.

Bu plant yr Eglwys yng Nghymanfa'r Ddeoniaeth yn Llandwrog brynhawn Sul, Mai 21.

Cafwyd gwasanaeth undebol yn yr eglwys fore'r Sul o dan arweiniad y ficer, y Parch. E. Trefor Jones, ar ddechrau'r Wythnos Gymorth Gristnogol.

CAPEL BETHEL A CHROESYWAUN — Y pregethwyr yng Nghyfarfodydd Pregethu'r Sulgwyn oedd y Parchn. Isaac Jones, Abergele a D. Hughes Jones, Y Rhyl.

Llongyfarchiadau i blant yr eglwysi a gafodd wobrwyon yn Arholiadau Cyfundebol yr Enwad:

(Bethel)

Arholiad Ysgrifenedig Cymanfa'r Cylch, Thomas John Pritchard. Yr Arholiad Sirol, Thomas John Pritchard.

Arholiadau Llafar: Osian Jones, Neil Owen, Wayne Owen, Meirion Williams, Helen Wyn Hughes, Nan Wyn Jones, Huw Ynyr Jones, Adrian Owen, Karl Parry, Alwyn Williams, Rhian Williams, Wendy Eaglestone.

(Croesywaun)

Arholiad Ysgrifenedig Cymanfa'r Cylch, Llion Iwan. Arholiadau Llafar: Bethan Wyn, Rhodri Sion, Rhys Sion, Ella Wyn Jones, Gwenan Jones, Nia Lloyd Jones, Carwyn Morris, Telor Iwan, Gareth Jones, Gwyndaf Williams, Euros Wyn, Aeron Jones, Dafydd Morris, Sandra Jones, Sian Lloyd Jones Elliw Iwan, Llion Iwan, Ioan Morris, Iwan Ellis, Dylan Pierce, Iona Williams. Llongyfarchiadau hefyd i bump o aelodau Eglwys yng Nghroesywaun a ddewiswyd yn flaenoriaid nos Sul, Mai 21: Mri. David Jones, E. Wyn Jones, Prys Morgan Jones, Robert Ap Wyn Williams, Stanley Williams.

CLWB GWYRFAI — Yn y cyfarfod ar Ebrill 20, o dan lywyddiaeth Mr. J. Austin Jones, rhoddodd Miss Oweilda Williams sgwrs ddiddorol iawn ar ei theithiau yn yr Unol Daleithiau, ac yr oedd y lluniau lliwgar oedd ganddi yn ychwanegu'n fawr at lwyddiant y cyfarfod. Diolchodd Mrs. Idris Jones yn gynnes iawn iddi am brynhawn difyr dros ben. Mrs. W. Lloyd Jones enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs. Faulkner.

Cynhaliwyd y Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys ar Fai 4 a chafwyd elw da i'r Clwb. Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb a fu'n gweithio i wneud y ffair yn llwyddiant ac i bawb a roddodd anrhegion a nwyddau.

Yn y cyfarfod ar Fai 18 y gŵr gwadd oedd y Parch. Emrys Edwards, Caernarfon. Fel y gellid disgwyl cafwyd prynhawn difyr iawn yn ei gwmni. Y llywydd oedd y Parch. Trefor Jones a diolchwyd i'r siaradwr gan Mr. Edwin Humphreys Jones.

Swyddogion y Clwb am y tymor nesaf fydd: Llywydd Anrhydeddus: Mrs. N. Miles; Llywydd: Y Parch. E. Trefor Jones; Is-lywyddion: Mrs. Idris Jones a Mr. J. Awstin Jones; Ysgrifennydd: Mrs. M.O. Parry Williams; Trysorydd: Mr. W. Vaughan Jones; Trysorydd Cynorthwyol: Miss Gwladys Lewis.

MERCHED Y WAWR — Ar gyfer y cyfarfod ar nos Iau, Ebrill 28, yr oedd Mr. John Roberts, Pencaenewydd wedi trefnu "Cwis" ar gyfer dau dim. Holwyd hwy gan Mrs. Gillian Wyn a Mrs. Jean Jones oedd yn cadw'r cyfrif. Gofelid am y te gan Mrs. Nellie Williams, Mrs. Glenys Williams a Mrs. Greta Hughes. Mrs. W. Lloyd Jones enillodd y raffl.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Mai oedd Mrs. Florence Treen.. Llongyfarchodd y gangen ar gyrraedd ei hanner canmlwydd a chyflwynodd gerdyn o'r pencadlys i'r llywydd, Mrs. K. Wyn Jones, i gofio am yr amgylchiad.

Y nos Lun ganlynol, Mai 8, cafwyd cinio i ddathlu hanner canmlwydd sefydlu'r gangen. Roedd y gangen wedi gwahodd cyn-lywyddion a oedd wedi mynd i fyw o'r ardal i'r cyfarfod a'r brif-siaradwraig oedd Mrs. E.M. Roberts, Llanbedr, Conwy. Mae un o'r rhai a sefydlodd y gangen yn 1928 wedi bod yn aelod cyson a ffyddlon ar hyd yr adeg, — Mrs. J. Morley Williams ac yr oedd hi mor fywiog â neb yn y dathlu. Bu'r noson yn un hir atgofus felys.

Y BLAID — Treuliodd y gangen amser difyr iawn ym Mhlas Tandinas nos Lun, Mai 1. Ar ol y bwyd llywyddodd Dafydd Iwan gyfarfod a drefnwyd ganddo ef a Mr. Norman Williams. Enillwyr gwobrau mis Mai oedd: Mr. T.H. Williams, Coed Gwydryn, Mr. Norman Williams; Mr. J. Nathaniel Owen.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Y mae'r casglu yn dal i fynd yn ei flaen a bellach y mae dros £600 yn y gronfa. Er fod swm go dda i'w casglu eto, y mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb, hen ac ifanc, sydd yn gweithio ac yn cyfrannu.

Mewn pwyllgor nos Fercher, Mai 24 penderfynwyd cael Rali Geir ar Mehefin 30, Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Gorffennaf 7 ac wythnos o weithgareddau amrywiol yn dechrau gyda Cymanfa Ganu ar Orffennaf 9.

Y MUDIAD EFENGYLAIDD — Mewn cyfarfod o dan nawdd Pwyllgor Rhanbarthol Gwynedd o Fudiad Efengylaidd Cymru yng Nghapel Croeswaun nos Wener, Mai 5, pregethwyd gan y Parch. Irfon Parry, Blaenau Ffestiniog.

LLONGYFARCHIADAU — i Miss Glenda Jones, Lynfod ar basio'r cymal dwytha yn arholiadau'r cyfreithwyr; i Mr. Len Taylor, Dolerddi a benodwyd yn Ddirprwy Brifathro mewn ysgol yn Nottingham (mae'n dysgu yn Leicester ar hyn o bryd); i Mrs. Rhian Ellis ar ei phenodiad yn athrawes yn Ysgol Brynrefail; i Mrs. Marion Iwan ar ei phenodiad hithau i swydd yn Ysgolion Syr Hugh Owen a Dyffryn Nantlle; i Mr. Fred C. Owen, Pant y Waun a aeth o Ffatri Peblig Bernard Wardle i swydd bwysig gyda'r un cwmni yn Coventry; i Mr. a Mrs. Thomas Owen, Dolerddi ar enedigaeth mab iddynt; i'r canlynol ar basio eu harholiadau ar y piano: Suzanne Allan, Pen-y-bont (Gradd 1); Delyth Wynne Williams, Bro Waun (Gradd 2); Gwyneth Myra Williams, Bryn Celyn a Nia Pritchard, Min-y-grug (Gradd 4) ac Ann Llewelyn Griffith, Eirianallt (Gradd 5).

CYDYMDEIMLWN — â Mr. Robert Williams, 9 Ael-y-bryn, (colli priod); Mrs. Lewis, 23 Tref Eilian (colli priod); Mr. Cox, Capri, (colli priod); Mr. David Morris, 2 Bryn Golau (colli brawd).

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Evans, Manchester House sy'n wael gartref, ac a Mr. Francis Williams, Bryn Golau a Mr. Gwilym Hughes, Tref Eilian sydd mewn ysbytai.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r rhai hyn a fu mewn ysbytai: Mrs. Margaret Jones, Graianfryn; Mr. H.M. Thomas, Bro Waun ac Yvonne Williams Bryn Golau.

CROESO — cynnes i Dr. Helen Jones i'n plith. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn ei gwaith yma.

ACHOSION DA — Casglwyd £43 yn yr ardal at yr "Eithinog Cheshire Home" a dymuna'r trefnydd ddiolch i'r casglyddion a'r cyfranwyr.

Gwnaed elw o dros £100 mewn Noson Goffi er budd Capel Moreia, a dymuna'r aelodau ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth parod.

Bu dwy Yrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys tuag at gostau ynglŷn â'r Neuadd. Yr M.C. yn y gyntaf oedd Mr. Peter Evans ac enillwyd y gwybrwyon gan Mrs. E. Morris, Cwm-y-glo; Mrs. B. Morgan, Bethel; Mr. I. Jones, Llanberis; Mrs. O.T. Jones, Waunfawr; Mrs. Glenys Williams, Betws Garmon a Mrs. Pettifor, Waunfawr.

Yn yr ail yr M.C. oedd Mr. Haydn Jones a'r enillwyr oedd Mrs. Hughes, Mrs. M. Jones, Mrs. Jones (y tair o'r Felinheli); Mrs. E. Ellis, Mrs. E. Taylor (y ddwy o'r Waun) a Mr. I. Jones, Caernarfon.

TRYCHINEB LLWYN ONN

**Un noson tra diweddar,**
**'Rôl diwrnod eitha' da,**
**Aeth Jean i olchi dillad**
**A Dic i blannu ffa.**

**'Rôl rhwbio a bytheirio**
**Daeth diwedd ar y gwaith.**
**Dim ond eu sychu eto —**
**A'r amser ond yn saith.**

**Fe'u rhoddwyd ar y c'neswr nwy**
**I sychu yn y gwres;**
**I siarad yr aeth Jean yn awr**
**A'u gadael yn un rhes.**

**Dwy awr aeth heibio — dyma waedd**
**'Rhen Dic yn wyllt i gyd.**
**Y dillad wedi mynd yn fflam**
**Wel! dyma ddiwedd byd!**

**Y pymtheg trons yn wenfflam aeth**
**A'r nicyrs — deg i gyd,**
**Dim ond eu lludw oedd ar ôl —**
**Edrychai'r ddau yn fud.**

**"Be wna i'n awr?" medd Jean mewn poen,**
**"Does gen i 'run ar ôl."**
**"Run fath â fi," medd Dic yn syth,**
**"Be ro'i ar fy mhen ôl?"**

**Felly, chwi drigolion Waun,**
**Os gwelwch hwy dan ffliw,**
**Fe wyddoch chwi y rheswm pam —**
**Yn dinnoeth maent, wir Dduw!**

**Sant Mihangel.**


CYMDEITHAS AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU

**MABOLGAMPAU ERYRI**

SADWRN, 3ydd MEHEFIN
DDÔL GOEDEN, LLANBERIS

MABOLGAMPAU
DOSBARTHIADAU MARCHOGAETH A NEIDIO
GWISG FFANSI DAN GYFRWY
CYSTADLAETHAU OEN A MYN LLYWAETH
GORYMDAITH CEFFYLAU GWEDD
Gwisg Ffansi i drigolion ardal Llanberis yn unig
12 oed ac oddi tan; 13 — 17 oed; dros 17 oed

LLUNIAETH AR WERTH YN Y GANOLFAN

*Mynediad: Plant 10c; Oedolion 30c*

Manylion pellach gan yr ysgrifennydd: Mrs. Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo, Caernarfon. Ffôn: Llanberis 416.

# Eich Hawliau

gan Berwyn Hughes

**MAE'N hawdd iawn i rywbeth gymryd eich ffansi – modur neu ddodrefn efallai, ac heb feddwl, 'rydych wedi cytuno i brynu ac efallai wedi talu blaendal. Ond ydych chwi'n sylweddoli os y newidiwch eich meddwl mae'n debygol y collwch ran, os nad y cyfan, o'r arian hyn? Y rheswm yw fod y cytundeb wedi'i dorri.**

**Beth yw cytundeb?** Wrth gytuno i brynu rhywbeth ffurfir cytundeb rhyngoch chwi a'r gwerthwr, naill ai ar bapur neu ar lafar. Os gofynnir ichwi arwyddo ffurflen, darllenwch y print bychan!

Fel rheol, mae angen blaendal am nwyddau neu wasanaethau a brynir ar gredyd, ac mae cyfradd y blaendal yn dibynnu ar y math o nwyddau dan sylw. Weithiau gofynnir am y swm yn llawn – er enghraifft, os archebir nwyddau trwy'r post.

**Pryd allwch chwi golli arian?** Gall hyn ddibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y swm o arian a dalwyd, y math o nwyddau neu wasanaeth mewn golwg, ac, yn bennaf oll, termau'r gytundeb. Ond, yn gyffredinol, os torrwch gytundeb oherwydd ailfeddwl, mae gan y gwerthwr hawl i adennill unrhyw arian a gollir oherwydd eich gweithred. Gall hyn arwain i lys barn, ond mae'n bosib trefnu'r mater heb gymryd y camau hyn, trwy gymorth cyfreithiwr.

Mae rhai amgylchiadau lle gallwch fod yn deilwng o'ch arian yn ôl, ond yn aml mae gwahaniaeth rhwng teilyngdod a'r gwirionedd:

1) **Ble mae'r cytundeb yn dweud y byddai'r arian yn cael ei ddychwelyd.** Ambell dro, mae'r gwerthwr yn cytuno i ddychwelyd y flaendal pe bai angen, ond dylir sicrhau fod hyn i lawr mewn du a gwyn.

2) **Pan mae'r gwerthwyr yn torri'r cytundeb.** Os nad yw'r siop neu'r cwmni yn gallu cadw eu rhan o'r fargen – er enghraifft, y maint anghywir neu liw gwahabol, methu danfon nwyddau o fewn amser, neu nwyddau diffygiol – yr ydych yn deilwng i adennill eich arian.

Os ydych wedi archebu nwyddau ar gyfer dyddiad neilltuol, 'rydych yn deilwng o'ch arian yn ôl. Hyd yn oed os nad ydych wedi neilltuo dyddiad, a'r nwyddau yn cymryd amser anarferol i ddod, dylech ymgysylltu â'r gwerthwr a dweud os na ddaw'r nwyddau o fewn, dywedwch 14 diwrnod, byddwch yn gohirio'r archeb ac yn disgwyl eich arian yn ôl.

3) **Pan mae'r nwyddau yn ddiffygiol.** O dan y Ddeddf Gwerthiant Nwyddau mae'n rhaid i nwyddau fod o "ansawdd gwerthadwy (merchantable quality)", fel y disgrifir, ac yn "addas i'w pwrpas."

4) **Wrth brynu ar "H.P." neu gredyd.** Os arwyddwch gytundeb "H.P.", **i ffwrdd o safle masnach,** gartref, er enghraifft, bydd print coch ar y cytundeb a elwir yn "cooling-off period". Mae hyn yn eich galluogi i dynnu'n ôl o'r cytundeb cyn i nifer amodol o ddyddiau fynd heibio.

5) **Wrth brynu trwy'r post.** O dan y "British Code of Advertising Practice" mae pob archeb i'w chyflawni o fewn 28 diwrnod. Os na chlywch ddim ar ôl y cyfnod hyn, dylech gysylltu â rheolwr hysbysebion y papur neu'r cylchgrawn a ddangosodd yr hysbyseb.

**DEINIOLEN AR Y BLAEN**

Daeth Seindorf Deiniolen ag anrhydedd i'w pentref ac i'r cylch trwy ddod yn gyntaf allan o naw mewn cystadleuaeth i fandiau Cymru yng ngwersyll Pontin's Prestatyn yn ddiweddar. Daeth Seindorf Llanrug yn bumed.

MEHEFIN 10, 1978 7.30 p.m.

## 'SGUBOR LAWEN

ar FFARM BRITHDIR, BANGOR

Arweinydd: Charles Williams
ynghyd â llawer o sêr y byd adloniant
Tocynnau: £1, Plant a Phensiynwyr: 50c
Twmpath Dawns 10.00 p.m.
Galwr: Gwyn Williams Tocynnau 25c
Manylion pellach: Roberts, 6 Alotan Crescent, Penrhosgarnedd, Bangor
Ffôn: Bangor 4049
Cymdeithas Rhieni Athrawon a Chyfeillion
Ysgol y Garnedd, Bangor



# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, BEM

## DAFYDD DAMAD

**Fy nhad ddywedodd hanes Dafydd Tomos, Penisarwaun wrthyf. Dafydd Damad oedd ei enw gan bawb a hynny wrth gwrs am y rheswm ei fod yn crwydro'r wlad i ofyn am damad yn nrysau'r tai. Mae'n haeddu ei gofio.**

Cymeriad hynod oedd Dafydd Damad. Yr oedd Dafydd wedi dysgu ei grefft o gardota yn berffaith. Gwyddai yr holl driciau i'r dim.

Gofynnai rhywun iddo:

"Gymeri di gwpaned o de Dafydd?"

"Os gwelwch chi'n dda, hefo'r tamad bara yma."

"Gymeri di frechdan, Dafydd?"

"Os gwelwch chi'n dda, hefo'r llymad te yma."

"Le 'rwyt ti'n byw 'rwan, Dafydd?"

"Ym mhob man."

Byddai'n gofyn am lawer o bethau heblaw tamad. Pur anaml yr âi o unrhyw ddrws yn waglaw. Cwynai, galarai, ochneidiai, a gallai doddi'r galon galetaf. Weithiau wedi cael crys gan rywun, byddai'n pwyso ar y person hael trwy ddweud, "Yda chi yn berffaith siŵr y medrwch ei sbario? Mi fuasai'n well gen i ddioddef fy hun na'ch gweld chi yn dioddef oerni heb grys." Wrth gwrs tric y grefft o gardota oedd hyn er mwyn ennill cydymdeimlad ac i roi argraff ar bobl fod ganddo gydwybod!

Yn wahanol i bob crwydryn, yr oedd gan Dafydd Damad fwthyn i gael lloches. Dywedir mai rhywle tu ôl i'r hen bost ym Mhenisarwaun y safai'r bwthyn. Gallai Dafydd ddarllen hefyd a châi bapurau newyddion gan bobl. Yr oedd llawr y bwthyn wedi ei orchuddio â phapurau a'u lluchio yn anhrefnus i bob congl.

Dywedir gan rai y bu'r bwthyn yn efail y gof unwaith ac efallai fod Dafydd Damad yn hanu o deulu'r gofaint. Yr oedd ganddo dynfa at dân a mwg, a byddai yn eistedd ger y grât â'i ben yn y simdde yn siarad gyda rhyw fodau anweledig a oedd i fyny'r corn mwg. Yna rhoddai ei law barddu ar ei glust i wrando ar y lleisiau o'r simdde. Gwnaeth Alafon gerdd ddoniol er cof am Dafydd Damad. Y mae deuddeg o benillion yn y gerdd. Dyma bedwar:

**CERDD ALAFON**

**Un medrus iawn oedd Dafydd**
**I hel ei damaid beunydd,**
**Ni chrwydrodd neb o sir i sir**
**Yn siwrach gwir fesurydd.**

**Ni welwyd ef yn garpiog**
**Gan gŵn na phobol frathog.**
**Fe hudai gôt a hoffai gael**
**O gist gŵr hael yn gastiog.**

**Ni cheisiai'r gwryn geiriog**
**Ond dime bach ne geiniog:**
**Ni chymrai geiniog ddôi mewn stŵr**
**O feddiant gŵr anfoddog.**

**A fuoch chi yn 'Stiniog?**
**Mae hwnnw 'mhell gynddeiriog:**
**Ewch yno os y daw byd gwan:**
**Mae'n gynnes fan am geiniog...**

**Alafon.**

Oes rhywun yn gwybod tybed lle bu Dafydd Damad farw ac ymhle y claddwyd ef?

**BEDD Y CRWYDRYN**

**Adref y daeth o'i grwydro–heb aelwyd**
**Heb wely, ond heno,**
**Mae'r pridd yn gysgod iddo**
**A chaead arch yw ei do.**

*Y Parch. O.M. Lloyd, Dolgellau.*

## Y NYTH A'R ADERYN

Canodd Miss Elizabeth Owen, soprano enwog o'r Waunfawr, yr hen faled ganlynol ddegau o weithiau, "Y Nyth A'r Aderyn". Enillodd wobrau lawer a byddai bob amser yn barod i roi ei gwasanaeth am ddim mewn cyngherddau elusennol ymhell ac agos. Gan Miss Elizabeth Owen y cafodd fy nhad yr hen faled.

**Soprano'n swp o rawnwin**
**A mêl y gân ar ei min!**

**Y FALED**

**Mi welais nyth ar frig y coed**
**Yn swynol i'm hedrychiad,**
**Ni welais i ddim byd erioed**
**Mor gywrain ei wneuthuriad**
**Ond ni anturiaf ato byth**
**A dyna'r pam sy'n canlyn,**
**'Rwy'n hoffi'r nyth, 'rwy'n hoffi'r nyth,**
**Ond nid wy'n hoffi'r 'deryn.**

**Mae'r nyth yn dawel ac yn glyd**
**Ac wyau prydferth ynddo,**
**Mae bron â'm temtio lawer pryd**
**I ddringo tuag ato.**
**Ond ni anturiaf ato byth**
**A dyna'r pam sy'n canlyn,**
**"Rwy'n hoffi'r nyth, 'rwy'n hoffi'r nyth,**
**Ond nid wy'n hoffi'r deryn.**

**'Rwy'n adwaen mab ers llawer dydd**
**Ni dd'wedaf ddim amdano;**
**O fewn ei balas hwnnw sydd**
**A thyddyn ffrwythlon ganddo;**
**Ond ni anturiaf ato byth**
**A dyna'r pam sy'n canlyn,**
**" 'Rwy'n hoffi'r nyth, 'rwy'n hoffi'r nyth,**
**Ond nid wy'n hoffi'r deryn.**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU**
**CAERNARFON A'R CYLCH**
**1979**

**GŴYL Y CYHOEDDI**

Nos Sadwrn, Gorffennaf 1, 1978
am 7.30 o'r gloch yn
Sinema'r Majestic, Caernarfon.

**Cyngerdd y Cyhoeddi**
Gyda Chôr Ieuenctid a Chôr yr Eisteddfod
Unawdwyr: Ann Taurins a Robert Wyn Roberts
Tocynnau: Llawr £1.50 Oriel £1
Plant 75c

**Tocynnau i'w cael yn:** Swyddfa'r Eisteddfod, Twtil, Caernarfon ac yn y siopau canlynol:

Eirug Wyn, Siop y Pentan,
Siopau'r Farchnad, Caernarfon.

Eric Jones, Siop Lyfrau,
Y Bontbridd, Caernarfon

**Bydd Rhestr Testunau'r Eisteddfod ar werth ar derfyn Seremoni'r Cyhoeddi**

# TARIAN ECO'R WYDDFA

**NOS Fercher, Mai 24ain a Champfa Ysgol Brynrefail yn atseinio a lleisiau yn agos i hanner cant o blant ysgolion Cynradd y Cylch yn annog ac yn ysbrydoli eu timau yn y gystadleuaeth am Darian Pump Bob Ochr Eco'r Wyddfa. Hon oedd y drydedd cystadleuaeth am y tlws, – fe gofiwch i Lanberis ei hennill ddwy flynedd yn ôl, Llanrug aeth â hi y llynedd, a phleser oedd cael ei chyflwyno i ysgol wahanol eto eleni – Deiniolen y tro yma.**

## SÊR Y DYFODOL

Mae saith ysgol gynradd yn nalgylch Eco'r Wyddfa a daeth chwech ymlaen i gystadlu, Llanrug, Llanberis, Deiniolen, Cwm-y-glo, Bethel a Phenisarwaun. 'Roedd hi'n amlwg fod chwarae pêl-droed o dan do yn brofiad newydd i'r mwyafrif ohonynt, a'r rheolau sy'n anenrheidiol i chwarae o'r fath yn rhai newydd. Er hynny, 'doedd ball ar frwdfrydedd yr hogia, ac erys dawn amlwg rai ohonynt yn fyw yng nghof y rhai fu'n gwylio. Gwelwyd 'rwy'n sicr rai o sêr dyfodol y bêl-droed, ac ni choeliaf mai cyddigwyddiad oedd i reolwyr timau Llanrug a Llanberis gynnig eu hamser i reoli'r gemau.

Bu'n dipyn o boen i mi er pan sefydlwyd y gystadleuaeth nad oes, am resymau amlwg, gystal siawns gan yr ysgolion lleiaf, a Phenisarwaun a Chwm yn enwedig, yn erbyn y cewri (mewn rhif) fel Llanberis a Llanrug. Mae'n sefyll i reswm mai'r ysgolion mwyaf fydd yn ennill a'n hedmygedd i'r rhai llai am gystadlu o gwbl yn ddiffuant. Carwn ddiolch i Brifathro Ysgol Brynrefail, am roi benthyg y gampfa i ni, i Dic Parry, Howyn Jones a Selwyn Allsup am reoli'r gemau, i'r prifathrawon am ganiatáu i'w hysgolion gystadlu ac, yn bwysicach na neb, i'r plant am eu hymdrechion gonest.



*Tîm buddugol Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Dylan Jones, Kevin Williams, Karl Phillipson, Gareth W. Hughes, Kevin John Jones, Malcolm Allen (y capten) a Gari Williams.*



*Dyma rai o'r hogia fu'n cystadlu am y tlws – dyfodol pêl-droed yr ardal yn sicr.*

## Y CANLYNIADAU

| | Ennill | Cyf. | P'tiau |
|---|---|---|---|
| Deiniolen | 4 | 0 | 8 |
| Bethel | 3 | 1 | 7 |
| Llanberis | 3 | 0 | 6 |
| Pen'sarwaun | 2 | 1 | 5 |
| Llanrug | 1 | 0 | 2 |
| Cwm-y-glo | 0 | 2 | 2 |



*Dafydd Evans, Golygydd Chwaraeon y yr Eco yn cyflwyno'r darian i Malcolm Allen, capten y tîm buddugol.*

**Mae printiau o'r lluniau pêl-droed ar y dudalen hon a'r dudalen ôl ar werth gan Mr. B. Smith, Pant Hyfryd, Ceunant. Cysylltwch ag ef os oes awydd prynu rhai arnoch.**

# Mabolgampau

**CYNHALIWYD Cyfarfod Mabolgampau Ysgol Brynrefail yn ystod y mis a bu nifer o'r plant yn hynod lwyddiannus, gan dorri 6 record rhyngddynt. Yn ddiweddarach bu'r goreuon yn cystadlu ym Mabolgampau Arfon ar faes chwarae y Coleg Normal ym Mangor a bydd naw disgybl o'r ysgol, ar sail eu llwyddiant yno, yn mynd ymlaen i gyfarfod Mabolgampau Gwynedd. Bydd y rhai llwyddiannus yno yn cystadlu yn y cyfarfod mawr yn erbyn Ysgolion Cymru i gyd ym Mae Colwyn ddechrau mis Gorffennaf. Gweler isod y rhai fu mwyaf llwyddiannus yng nghyfarfod yr ysgol.**

*Wyn Evans – enillydd Ras Traws Gwlad yr ysgol (record newydd)– enillydd y ras 800m a 1500m i'r Bechgyn Hynaf yn ail neu drydydd mewn nifer o gystadlaethau eraill– enillydd y ras 1500m yng nghyfarfod Arfon gan dorri record yr ysgol – Victor Ludorum **Ysgol Brynrefail.***





*Rhes ôl – Carys Williams, Alison Jones, Non Jones, Ceris Jones..Rhes flaen: Mary Roberts, Wyn Evans, Julie Clarke, Julie Roberts, Kevin Owen a Wendy Williams.*

*Wendy Williams – enillydd ras 800m i Enethod Ieuaf yr ysgol gan greu record newydd, ail yn y ras 1500 yn erbyn holl enethod yr ysgol. Aeth ymlaen i gyfarfod Mabolgampau Arfon ac enilllodd y ras 1500m i enethod dan 15eg oed yno gan dorri record y sir.*



# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

**CROESO. Gair o brofiad ac ychydig o atgofion am y tro. Waeth i mi gyfadde' ddim, mae Steddfod yn fy ngwaed i, fel ma' cicio pêl. Er fod fy ngwynt i'n fyr erbyn hyn 'rwy'n dal i gael gwefr wrth sgorio ambell i gôl ar iard yr ysgol. Er i mi hefyd edrych ymlaen at ambell i ben-wythnos ddi-eisteddfod, mae 'na rhywbeth ar goll ar y pen-wythnos rheini pan ddônt yn achlysurol yn ystod misoedd prysur y Gwanwyn.**

Peth annifyr ydy cyd-feirniadu weithiau, ond gorchwyl bleserus yw'r gwaith pan fo'r ddau feirniad ar yr un donfedd, ac yn cyd-weithio'n hapus â'i gilydd. Cefais benwythnos hynod o ddifyr ddechrau'r mis 'ma yng Nghylchwyl Eglwysi Dinbych a'r Cylch, pan gefais y pleser o gyd-feirniadu â'r cyfaill hoffus y Prifardd Emrys Roberts. Sôn am farathon o Steddfod, a sôn am frwdfrydedd. Y rhagbrofion yn parhau o chwech hyd un o'r gloch y bore ar y nos Wener, a'r Steddfod o naw fore Sadwrn hyd oriau mân fore Sul.

Y rhyfeddod ynglŷn â'r Steddfod arbennig hon yw fod yr holl destunau, yr adrodd a'r canu, yn cael eu dewis allan o'r detholiad am y flwyddyn. 'Roedd 'na gystadlu brwd, a phob un o'r deuddeg eglwys yn cyflwyno gwaith o safon uchel. Cafodd Emrys a minnau, a'r ddau feirniad cerdd, Mrs. Mair Carrington Roberts, Wrecsam a T. Gwynn Jones, Llanfairfechan ddau ddiwrnod prysur, ond hynod o hapus, a chawsom sawl sgwrs ddifyr a llawer o hwyl yn ystod y ddeuddydd.

Mae ffrindiau Steddfod yn ffrindiau arbennig, a phrofiad braf yw cael cerdded meysydd ein prifwyliau a chyfarfod â'r ffrindiau hyn. Mae gen i atgofion melys am gannoedd o steddfodau bellach, a mawr yw fy nyled iddynt hefyd.

Cofiaf yn dda y dyddiau hynny pan oedd Steddfod Bethel yn ei bri, a'r cyfle gwych a gefais i ddod i 'nabod sawl bardd a cherddor ar aelwyd fy nghartref, Bryn Alun.

Arferai fy mam yn flynyddol groesawu'r beirniaid a'r cyfeilyddion i'r aelwyd dros yr ŵyl. Bydd amryw ohonynt yn sôn wrthyf am gynhesrwydd y croeso hwnnw, a'r gwledda a'r sgwrsio difyr a gafwyd hyd oriau mân y bore. Mae amryw o enwau yn dod i'r cof – rhai ohonynt wedi ffarwelio â ni yn llawer rhy gynnar. Doniau fel Gwilym Gwalchmai, ddim yn meddwl am wely nes byddai'r wawr ar dorri – ia dyddiau, – neu'n hytrach boreau difyr oedd y rheini. Bydd T. Gwynn Jones, Valerie Ellis (Jones y pryd hynny), y Prifeirdd Gwilym R. Tilsley a Dafydd Owen, a'r cyfeilyddion dawnus Eluned Douglas Williams a Peleg Williams yn fy atgoffa o dro i dro am yr oriau difyr a gafwyd ar aelwyd Bryn Alun, yn sgîl eisteddfod Bethel.

Cofiaf yn dda hefyd fel y deuai y darlithwyr a wahoddid i'r Gymdeithas Lenyddol acw am banad a sgwrs. Rhai fel y Parch. Huw Jones, y Bala, R.E. Jones, Llanberis (Llanrwst 'rwan) a'r anfarwol Bob Owen, Croesor. Os bu Bob Owen ar eich aelwyd rhywdro – anghofiwch chi byth yr amgylchiad hwnnw. Cofiaf i minnau gael croeso tywysogaidd a llety noson ar aelwyd yr archchwilotwr yng Nghroesor hefyd – ond stori arall ydy honno.

Byddai myfyrwyr Coleg Bala Bangor yn arfer dod acw am ginio Sul hefyd, a bu sawl gweinidog yn treulio'r Sul gyda ni, pan arferai rai ohonynt wneud penwythnos ohoni drwy ddod ar nos Sadwrn ac aros hyd fore Llun. Cofiaf yn dda am gwmniaeth hyfryd rhai fel Camwy Evans, W.E. Jones, Carno (ap Gerallt) a Berllanydd Owen Hen Golwyn. Cofio Berllanydd yn rhoi'r wers gynta' 'rioed ar y cynganeddion i mi. Byddai'r Prifardd Tilsley yn galw acw yn aml, pan fyddai yn pregethu yng nghapel Saron, a llawer i seiad ddifyr a gawsom ym Mryn Alun, ac ar ei aelwyd yntau hefyd yng Nghaernarfon yng nghwmni'r gwr ffraeth y Parch. John Alun Roberts. Cofiaf yn dda i Tilsley daflu cerrig mân i ffenestr fy llofft ar awr annaearol un bore Sul. 'Roedd e wedi mynd allan o betrol rhwng Bethel a Chaernarfon wrth ddod o steddfod yn y Drenewydd. Bu llawer o dynnu coes arno wedi'r amgylchiad hwnnw, yn enwedig gan fod gwraig weddw barchus wedi manteisio ar ei garedigrwydd i gael cyd- deithio gydag o o'r Drenewydd i Gaernarfon.

Cofiaf i ddau brifardd arall alw acw un prynhawn pan oedd wythnos fawr y Bedyddwyr yn nhre Caernarfon. Y ddau oedd Rhydwen Williams a W.J. Gruffydd (Elerydd). Mynd hefo Elerydd i Landdeiniolen a thynnu ei lun yn sefyll uwchben bedd ein W.J. Gruffydd ni. Bydd Elerydd yn sôn am hyn bob tro y cyfarfyddwn yn y Genedlaethol a Gŵyl Fawr Pontrhydfendigaid. Ymddangosodd y darlun hwnnw yn y papur lleol o dan y penawd "W.J. uwchben bedd Gruffydd".

Ydi, yn sicr mae steddfota fel cystadleuydd ac fel beirniad wedi dod â llawer o bleser i mi erioed. Gwneuthum ddwsinau o ffrindiau, a melys yw'r atgofion am y seiadau a gychwynnodd fy niddordeb yn y "pethe" ar aelwyd Bryn Alun. Diolch i mam am iddi agor y drws iddynt, ac iddynt hwythau am werthfawrogi cynhesrwydd ei chroeso. Dyddiau dedwydd oedd y dyddiau hynny.

Gan i mi grwydro'n "eisteddfodol" am y tro manteisiaf ar y cyfle i ddymuno'n dda i holl blant y fro a fydd yn cystadlu yn Llanelwedd. Gobeithio hefyd y gwelwn gyhoeddi Steddfod Caernarfon "yn wyneb haul llygaid goleuni."

Bydd, mi fydd hi'n Ha' diddorol rhwng y steddfota a'r World Cup. Pwy enillith ys gwn i? Y Gadair, y Goron a'r Gwpan? Rhaid i minnau gael pâr o 'sgidia ffwtbol newydd erbyn y tymor nesa' – y pâr ola' reit siŵr.

Pob hwyl i chi,
Selwyn.

## BEDDARGRAFFIADAU

### CAMP A RHEMP LLANRUG

**Y BWTSIAR**

Esgyrn fuo fo'n drin o fore hyd hwyr
'Nawr d'yw o ' hun ond esgyrn llwyr
Bu'n awdurdod ar "beef" a "leg" lawer tro
Ond lloriwyd 'rhen frawd gan "biff" ar 'i goes o.

*Rol Williams*

**DYN LLEFRITH**

Bellach ni chlywir ei hiwmor na'i lais
Mae yntau 'di mynd am byth "Past your eyes"

*Rol Williams*

## ATODIAD TAN-Y-COED

Yn y Gymanfa yng Nghroesywaun am eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig gwobrwywyd hefyd: Dan 9: Paul de-Boo; Vaughan Ll. Hughes a Glenda Roberts; Dan 12: Carys Lloyd Jones; Dan 14: Margaret Roberts. Eto yng nghyfarfod gwobrwyo plant yn Nhwrgwyn, Bangor gwobrwywyd am eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol: Dan 9: Paul de-Boo a Vaughan Ll. Hughes. Dan 14: Margaret Roberts.

## LLYFRAU

**YN HOGYN AR LONGAU HWYLIAU** gan Y Capten Evan Jones.


Llyfr poced arall ag arogl y pridd arno, neu'n hytrach arogl y môr y tro hwn. Ynddo ceir hanes y Capten Evan Jones o'i fordaith gyntaf ar y llong hwyliau 'Cadwaladr' hyd ei fordaith olaf ar y llong hwyliau 'W.D.Potts', ac yna ei gyfnod ar y llong stemar 'Snowdonia'. Mae'r cynnwys yn ddeunydd hynod o ddiddorol

Cyhoeddwyd gan Wasg y Tir, Penygroes. Pris 65c.

## AT HOLL GYLCHOEDD CYMRAEG CYMRU

Mae Cylch Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro a Chylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn trefnu cyfarfod i aelodau Cylchoedd Cinio Cymru ar y dydd Mercher yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni. Er cael trefn ar y paratoadau a fydd Ysgrifenyddion y gwahanol Gylchoedd Cinio gystal ag ysgrifennu ataf i, Alun Daniel, 4 Erw'r Delyn Close, Penarth, cyn gynted at y bo modd fel y gallaf anfon y manylion atynt. Gan fod nifer y Cylchoedd Cinio a sefydlwyd wedi cynyddu'n ddirfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, bydd yn beth dymunol a hwylus i gael rhestr gyflawn ohonynt gydag enwau a chyfeiriadau'u hysgrifenyddion er mwyn cael cysylltiad agosach â'n gilydd.

*Alun Daniel.*



*Bu dau o fechgyn y Waunfawr, sef Anthony Marsden, Blaen y Nant a Gethin Williams, Bod Gwilym yn llwyddiannus mewn arholiadau a chystadlaethau a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Plas Arthur, Llangefni o dan nawdd y "British Judo Association". Cyflwynwyd tystysgrifau i'r ddau, sy'n aelodau o Glwb Bwshido, Bangor, lle maent yn ymarfer yn rheolaidd bob wythnos.*

# DINORWIG

CYDYMDEIMLO – Ebrill 25 yn ei gartref Ty'n Fawnog Uchaf, bu farw Mr. John D. Williams yn 72 mlwydd oed. Rhoddodd wasanaeth da i'r ardal am gyfnod hir fel Cynghorydd Dosbarth o dan yr hen Gyngor Dosbarth Gwyrfai. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs. H.J. Williams, a'i feibion Derec a John Arfon, a'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

O'R YSBYTY – Croesewir gartref o wahanol ysbytai wedi triniaeth: Miss Nora Williams, Padarn Stores, Fachwen a Mrs. Annie Jones, 5 Maes Eilian.

LLONGYFARCHIADAU – i'r canlynol ar eu gwaith yn y Maes Llafar; Arholiadau Cymanfa Ysgolion Sul M.C. Dinorwig a Llanberis, ar Sul Mai 7: Dan 7: Arfon Roberts; Dan 10: Eric Wyn Jones; Dan 11: Alwyn Iwan Jones; Dan 14: Marina Bryn Roberts, David Vaughan Jones, William Roberts; Dan 17: Annette Bryn Roberts, Olwen Bryn Roberts, Gwyneth Davies a Glenys Roberts.

CHWARAE PIANO – Llongyfarchiadau i Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ei gwaith yn ennill y wobr gyntaf ar chwarae'r piano yn Eisteddfod Mynydd Cilgwyn.

Y GANOLFAN – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yn y Ganolfan nos Iau, Mai 4 o dan lywyddiaeth Mr. Rennell Williams. Etholwyd pedwar aelod newydd at y pwyllgor presennol sef, Mrs. Medwen Griffith, Mr. Derek Williams, Mr. Llewelyn Jones a Mr. Griffith Roberts. Diolchwyd i Mrs. E. Jones a Mrs. A. Roberts, Maes Eilian, a fu am gyfnod hir ar y pwyllgor am eu gwasanaeth. Etholwyd Mr. David Ll. Hughes yn llywydd newydd, a Mr. Hugh Thomas yn is-lywydd a Mrs. Hannah M. Roberts yn ysgrifennydd. Diolchwyd i Mrs. Katie Ll. Hughes a Mr. O.R. Williams am archwilio'r Fantolen Ariannol a ddygwyd allan gan y Drysoryddes Miss Marian Jones, a llongyfarchwyd hi am Fantolen mor raenus. Os oes angen copi ar unrhyw un gellir ei gael gan y drysoryddes. Dynoda'r Fantolen fod y cyflwr ariannol yn foddhaol iawn, a gellir dweud yr un modd am Fantolen y Clwb Biliards a ddygwyd allan gan Mr. Kelvin Pleming a Meirion Thomas. Cafwyd gwybodaeth gan Mr. Dick Parry, Swyddog Ieuenctid fod y gwaith o atgyweirio y tu mewn i'r Ganolfan i'w gwblhau yn fuan. Bydd hyn yn rhoi cyfle i beintio yn y dyfodol agos. Cafwyd adroddiad byr gan y llywydd, a diolchodd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith yn y gorffennol a dymuno'n dda i'r swyddogion newydd.

CYFARFOD PREGETHU (Sardis B) – Dydd Sulgwyn, Mai 14 cynhaliwyd gwyl bregethu flynyddol eglwys y Bedyddwyr yng Nghapel Sardis. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. Irfon Roberts, B.A., Castell Newydd Emlyn.

DIOLCH – Dymuna Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir ddiolch o galon i'w theulu, pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY – Dymuniadau gorau i Mr. Alun Phillips, 6 Maes Eilian tra yn Ysbyty Môn ac Arfon dan driniaeth arbennig. Anfonir ein cofion gorau at Mr. J.H. Williams, 7 Maes Eilian sydd yn Ysbyty Bryn Seiont.

CRONFA LEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON 1979 – (Taith Gerdded ar fore Sadwrn Mehefin 17) – Bydd cyfle i bawb fynd ar daith gerdded o gwmpas yr ardal. Bydd y cerddwyr yn cychwyn o'r Ganolfan leol am 10.00 a threfnir lluniaeth ar eu cyfer ar y diwedd.

Dylem ymhyfrydu yn y ffaith fod gennym olygfeydd gorau yn y byd yn y fro yma a bydd cyfle i brofi hyn ar y daith. Eisoes mae'r bobl ifainc wedi dangos eu diddordeb i gerdded ond mae croeso i bawb o bob oed ymuno â hwy. Mae'r taflenni ar gael gan y trefnydd, Glyn Thomas. Yn garedig iawn mae llywydd y gronfa leol – y Cynghorydd Rennell Williams, wedi cytuno i ddod atom i gychwyn y daith.

## HOGIA CHWAREL



*Yn y llun o'r chwarel mae nifer o'r Fachwen a Dinorwig. Yr ail o'r chwith yn yr ail res yw David Ellis o Frynrefail (ewythr Mrs. Owens). 'Roedd yn organydd yn y Capel a chwaraeodd mewn llawer o gyngherddau. Ef oedd yn chwarae neu'n canu'r piano i gôr Joseph Tomos yng Nghwm-y-glo pan oedd y cor yn dysgu'r "Messiah" ar gyfer cyngerdd mawreddog yn hen Bafiliwn Caernarfon. 'Roedd 1300 o leisiau yn y Côr.*

*Soniodd Mrs. Owens am farwolaeth Gwilym Ellis, mab David Ellis a chefnder Mrs. Ifor Williams, 'Gwelfryn' a Mrs. Owens. 'Roedd yn byw yn St. Helens. 'Roedd yntau, fel ei dad, yn organydd ei gapel ers 50 mlynedd.*

*(Y llun trwy garedigrwydd Mrs. G. Owens, Llanrwst)*

# BRYN REFAIL

Y GYMANFA – Cynhaliwyd Cymanfa flynyddol Eglwysi Presbyteraidd Dosbarth Deiniolen yng Nghapel Brynrefail ddydd Sul, Mai 7 dan arweiniad Mrs. G. Alwena Williams, Llanddona. Yr organyddion oedd Miss Mair W. Evans a Mrs. L.P. Williams. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr. G.W. Williams a phlant ieuengaf yr Ysgol Sul ymgymerodd a'r gwasanaeth dechreuol dan ofal Mrs. Shirley Roberts. Yng ngwasanaeth yr hwyr offrymwyd gweddi gan Mr.R.W. Evans. Gwobrwywyd y canlynol o aelodau'r Ysgol Sul yn yr Arholiad Llafar: Dan 6: Rodney Roberts a Paula Walters. Dan 7: Carol Jones a Glenda Walters. Dan 8: Jacqueline Walters. Dan 9: Neil Roberts ac Alwen Jones. Dan 11: Llinos Roberts. Dan 50: Mrs. Shirley Roberts a Mrs. Lowri P. Williams. Dros 50: Mrs. Elizabeth Foulkes a Mr. Richard Wyn Evans. Gwobrwywyd hefyd y parti cyd-adrodd dan 9 oed.

CLWB YR HENOED – Cyfarfu'r Clwb ddwywaith yn ystod y mis. Nos Fawrth, Mai 2, treuliwyd noson yng nghwmni Telynores Gelert a'r teulu o Nant Peris. Rhoddwyd y te gan Mr. J. Maxwell, Bro Dawel a Mrs. Owen o Lanberis. Mr. T.H. Williams, Waunfawr fu'n diddori'r aelodau ar lafar ac ar gan nos Fawrth, Mai 16. Miss B. Owen, 2 Tai Orwig, Mrs. J. Roberts, Creigle a Mrs. Foulkes, Bryn Derw oedd yn gofalu am y lluniaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cafwyd cyfarfyddiad o'r gangen nos Iau, Mai 18, yng nghwmni Mrs. M.A. Thomas, Deiniolen. Rhoddodd adroddiad diddorol o'i gwyliau diweddar yn yr Iseldiroedd. Rhoddwyd y te gan Mrs. Pat Jones a Mrs. Carol Houston. Enillwyd y raffl a gyflwynwyd gan Mrs. Jennie Roberts, Glandŵr, gan Mrs. Pat Jones. Trefnwyd Trip Siopa i Wrecsam ar Fehefin 17 i aelodau'r gangen ac unrhyw un sydd â diddordeb. Derbynnir enwau gan Mrs. Jennie Roberts neu Mrs. Mai Williams, 3 Tai Orwig.

YSGOL Y BABANOD – Ddydd Mawrth, Mai 16 bu disgyblion yr ysgol ar ymweliad â Theatr Gwynedd, Bangor. Mwynhaodd pawb gynhyrchiad Cwmni Theatr Cymru "Yr Eco a gollodd ei lais."

CLWB PEDWAR UGAIN – Dan nawdd y Clwb cafwyd Trip Dirgel ddydd Sadwrn, Ebrill 29. Teithiwyd drwy Fetws y Coed i Flaenau Ffestiniog ac yna dychwelyd drwy Feddgelert lle'r oedd lluniaeth wedi ei drefnu ac adloniant yng nghwmni Aled Hughes. Enillwyr y mis: 22:4:78: 1: Judy Walton, Rhydau Duon; 2. Helen Roberts, Llwyncoed Bach; 3. Ann Parry, Gorffwysfa. 29.4.78: 1. Elwyn Jones, 1 Trem Eilian; 2. Moira Ellis, Gweledfa; 3. James Houston, 2 Trem Eilian. 6.5.78: 1. Carol Houston, 2 Trem Eilian; 2. Islwyn Williams, Godre'r Coed; 3. Islwyn Jones, 3 Trem Eilian. 13.5.78: 1. Owen Walters, 3 Minffordd; 2. Eirlys Williams, Marino; 3. Alwyn Roberts, 1 Minffordd. 20.5.78: 1. Owen Roberts, Llwyn Helyg; 2. Eurwyn Williams, Llwyncoed 3. Elizabeth Owen, Tros-yr-Afon.

# TAN-Y-COED

COFION – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mr. Joseph Ellis, 3 Tai Bryngwyn ac Alwena Roberts, 1 Tai Minffordd, y ddau yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Gwellhad buan i'r ddau.

DIOLCH – Dymuna Mr. Arthur Vaughan Jones, 6 Maesgerddi ddiolch i'w Weinidog, y Parch. W.O. Roberts, ei deulu, ei gyfeillion, a'r cymdogion am eu caredigrwydd iddo yn ystod ei waeledd. Diolch yn fawr i bawb.

PRIODAS – Dydd Llun, Gŵyl y Banc Mai 29, priodwyd Hefin Jones, Garnedd (gynt o Gefn Llwyd) a Sharon Wyn Jones, Bryn Elwydd, Caernarfon. Priodwyd hwy yng Nghapel Seilo Caernarfon. Dymunwn iddynt fendith a hapusrwydd yn eu bywyd priodasol.

LLONGYFARCHIADAU – i blant yr ardal fu'n llwyddiannus ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail, Mai 11: Margaret Roberts, Tairnewyddion: 1. (800m) – Iau. 2il: (400m) Iau. Hefyd enillodd Margaret darian am dorri record 800m o naw eiliad. Ann Jones, Pant Mwyn: 2il (400m) –hyn, 2il (800m), 3edd (200m) ac yn adran (100m). Linda Jones, Pant Mwyn: 2il (800m) iau is (lower juniors); 3edd (1500m) a 4edd (200m).

Llongyfarchiadau hefyd i enillwyr Arholiadau'r Ysgol Sul. Arholiad Llafar Dros 18: Mrs. Catherine Evans; Dan 11: Garry Wynne; Dan 10: Richard W.J. Roberts; Dan 9: Paul de-Boo a Glenda Roberts; Dan 8: Manon Ll. Evans a Bethan L. Parry. Dan 7: Simon B. Williams ac Alwena Roberts Dan 6: Victoria de-Boo, Wyn Parry, Amlyn Ll. Evans a Lona P. Roberts. Dan 5: Shoned Roberts, Sarah de- Boo Ffrion J. Williams, Annwen Parry. Dan 4: Tudor W. Jones, Mark W. Jones, John E. Jones, Jonathan R. Williams. Dan 3: Aled Parry. Gwobrwywyd yr enillwyr hyn yn y Gymanfa.


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# NANT PERIS

CYMANFAOEDD CANU – Yn ystod y mis cafwyd Cymanfa Ganu, un yn Eglwys Sant Padarn a'r llall yng Nghapel Coch. Llongyfarchwn yn galonnog iawn blant Sant Peris a Rehoboth am eu gwaith rhagorol yn yr arholiadau llafar ac ysgrifenedig a gynhaliwyd ynglŷn â'r ddwy gymanfa. Da iawn blant a daliwch ati i ddysgu.

CYMORTH CRISTNOGOL – Diolch yn fawr iawn i'r ddau frawd a'r ddwy chwaer ifanc a fu o gwmpas yr ardal yn casglu arian yn ystod yr wythnos a neilltuwyd i'r gwaith arbennig yma. Casglwyd yn y rhan uchaf o'r pentref gan Hilda a Rita Jones, 2 Nant Ffynnon; ac Alwyn ac Elwyn S. Jones Dwyfor oedd yn gyfrifol am y rhan isaf.

GWERTHU BANERI – Bu dwy o'r chwiorydd, Mrs. Jean Elis a Mrs. Brenda Roberts o gwmpas hefyd yn gwerthu baneri ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol 1979. Cafwyd ymateb da a chroeso gan bawb. Mae'n debyg y daw gwybodaeth drwy'r wasg o'r arian a gasglwyd ymhob ardal.

Yn Festri Rehoboth nos Fercher, Mai 24 bu cyfarfod i drefnu gweithgareddau pellach tuag at gyrraedd y nod o £300. Cafwyd adroddiad gan y trysorydd a deallwn ein bod wedi cyrraedd hanner y ffordd. Penderfynwyd ein bod yn cael Taith Gerdded noddedig ar ddydd Sadwrn, Mehefin 17. Bydd angen cerddwyr a noddwyr. Am wybodaeth pellach ymofynner â Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon. Oes, y mae ganddo gyflenwad o ffurflenni i gasglu enwau y noddwyr i bawb fydd yn dymuno cymryd rhan. Cychwyn am 11 a.m. o'r maes parcio, ger y Ganolfan yn Llanberis, i Ben Llyn, Fach Wen, Dinorwig ac i lawr ar hyd llwybr main yn ôl i'r maes parcio. Os bydd rhai yn teimlo fel cychwyn o'r Nant a cherdded yn ôl i'r Nant mae croeso iddynt wneud hynny ond iddynt fod yn Llanberis erbyn 11 a.m. er mwyn i bawb fod yn cyd-gerdded. Ewch ati i roi'r cymalau ar waith i'w hystwytho ar gyfer y daith. Y nod? £100 i'r Gronfa Leol.

PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Mai 20 yn Swyddfa'r Cofrestrydd yng Nghaernarfon priodwyd Miss Karen Lynne Thomas, Gwesty'r Faenol a Mr. Stephen Allan Rose o Derby. Y gwas oedd Mr. Simon Higginbottom. Cafwyd y 'brecwast priodas' yng Ngwesty'r Faenol a deallwn y bydd y pâr ifanc yn cartrefu yno ar hyn o bryd. Derbynied y ddau ein dymuniadau gorau am fywyd priodasol hapus.

I'R YSBYTY – Drwg gennym ddeall fod Mrs. H. Thomas, 9 Glanrafon yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd. Gobeithiwn ei gweld yn ôl yn ein plith yn fuan wedi cael meddyginiaeth. Ein dymuniadau gorau i chwi Mrs. Thomas.

COFIO A CHYDYMDEIMLO – Ar Mai 17 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor bu farw Mrs. Gwladys Edwards, Tyn Twll gynt, Bronallt Nant Peris yn ddiweddar, yn 92 mlwydd oed. Yn enedigol o Gorris, daeth Mrs. Edwards i'r Nant yn 7 oed a threuliodd bymtheng mlynedd a thrigain o'i hoes yn y Nant yn fawr ei pharch. Bu yn flaenllaw ym mywyd y Nant ar hyd ei hoes, yn enwedig yng Nghapel Rehoboth. Gwraig dawel, foneddigaidd, ydoedd, parod ei chymwynas, a'i gwên yn gynnes a chroesawus. Bregus fu ei hiechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond daliodd i ddod i'r oedfaon er ei gwendid corfforol hyd y misoedd diwethaf a bydd bwlch mawr ar ei hôl yn y Capel, yr ardal ac yn enwedig ar aelwyd Bronallt lle y bu ei merch a'i mab-yng-nghyfraith mor ofalus ohoni. Bu Mrs. Edwards farw fel y bu fyw yn dawel a distŵr ac estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam dda, a nain, a hen nain annwyl iawn. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent y Nant ddydd Sadwrn, Mai 20, a gwasanaethpwyd gan y Parch. John Owen, B.A. B.D., Rhuthun.

DIOLCH – Dymuna Mr. a Mrs. T.G. Pritchard, Eirlys, Alwena a Hefina, Bronallt, ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Diolch hefyd i'r gweinyddesau lleol a hefyd staff yr uned Geriatric ym Mangor at ba un y caed y swm o £30.50 yn lle blodau.

BRENIN YR HYRDDOD – Dyna yw hanes hwrdd blwydd oedd o eiddo Mr. Meirion W. Pritchard, Tŷ Isaf. Enillodd Mr. Pritchard Darian Goffa Mr. R.P. Roberts, Perthi, Beddgelert, cynlywydd Cymdeithas Defaid Mynydd Arfon gyda'r hwrdd ifanc yma. Aed â 190 o ŵyn myheryn i fferm Tal-y-Bont, Bangor ym mis Hydref 1977 i'w magu a gwylio eu cynnydd yn fanwl. Y mis yma beirniadwyd y cwbl ohonynt ac i'r Nant y daeth y darian. Dyma'r tro cyntaf i'r darian ddod i'r hen Sir Gaernarfon. Mae'r gystadleuaeth yn agored i Arfon, Meirionnydd, Dinbych, Aberteifi a Threfaldwyn.




## WYTHNOS GARNIFAL LLANRUG

| | |
|---|---|
| Mehefin 18 | Cymanfa Ganu yng Nghapel Pontrhythallt |
| Mehefin 19 | Tombola yn Ysgol Gynradd Llanrug |
| Mehefin 20 | Disco i'r Plant yn Glanmoelyn |
| Mehefin 21 | Gêm Derfynol Pêl-droed Merched |
| Mehefin 22 | Noson Adloniant a Choffi yn Ysgol Gynradd Llanrug |
| Mehefin 23 | Mabolgampau yng Nghae Ysgol Brynrefail |
| Mehefin 24 | Diwrnod y Carnifal |


# PENISARWAUN

GWELWYD – gwenoliaid ym Mhenisarwaun ar Ebrill 26 a bu'r gog wrthi'n canu er Ebrill 28. Serch hynny yr oedd rhywfaint o'r hen eira i'w weld o hyd ar y Glyder a Chrib y Ddysgl ar Fai 23.

CYD-DDIGWYDDIAD – Mewn un llun o blant Ysgol Tan-y-coed Penisarwaun yn rhifyn Mai o'r Eco yr oedd llun Mr. Nathan Jones, 5 Tai Brynhyfryd ac yn yr un diweddaraf 'roedd llun Jonathan Richardson ei ŵyr bach. Gyda llaw balch oeddem o glywed bod Nathan yn gwella.

SALWCH – Mae amryw o'r pentrefwyr yn cwyno neu wedi bod yn cwyno. Yr ydym yn dymuno adferiad buan a llwyr iddynt. Yn eu plith y mae Mrs. Nix, Talsarnau sydd yn yr ysbyty; Mr. Evan Owen, Waun Hywel; Mr. Llew Jones, 4 Llys y Gwynt sy'n well; Mr. R. Pritchard, Gwynfa sydd hefyd yn gwella; Mrs. A. Ellis, Weirglodd Goch sy'n gwella gyda Nansi yn Abergele; Mrs. S. Humphreys, Y Winllan gyda'i merch yng Nghaernarfon a Mr. J.G. Jones, 18 Bryntirion sydd yn well.

Mrs. Gwyneth Jones, 1 Bryn Tirion, sydd yn Ysbyty Dewi Sant ar hyn o bryd; adferiad buan iddi.

MARWOLAETH – Brawychwyd y fro wrth glywed am farwolaeth Mr. G. J. Williams yn ŵr ifanc. Cydymdeimlwn â'i weddw a'i fab.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Mai 23. Llywyddwyd gan Mrs. Anne Jones. Dymunwyd adferiad buan i Mrs. Martha Jones, Tai Arthur ac hefyd Mrs. Eurwen Roberts, Llys Gwynt. Da oedd deall fod Mr. Nathan Jones yn gwella. Trefnwyd i fynd am wibdaith i Landudno ar Sadwrn Gorffennaf 15. Treuliwyd gweddill y noson yn chwarae Gyrfa Chwilen a chafwyd noson hwyliog. Enillwyd gan Mrs. Naney E. Jones a'r "booby" i Miss Gwenifer Jones. Darparwyd y te gan Mrs. Eirlys Jones a Mrs. Bessie Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs. E. Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs. W.J. Jones, 13 Bryntirion.

EGLWYS ST. HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Mai 8 yn yr Eglwys. Cymerodd y ficer y gwasanaeth. Ef hefyd oedd wrth yr organ. Croesawyd y wraig wadd, Mrs. M. Lloyd Williams, Pontrhythallt, gan Mrs. O.C. Roberts, Elidir View, a chawsom bregeth amserol ganddi. Diolchodd Mrs. M. Davies iddi. Dymunwyd gwellhad i Mrs. A.M. Naylor, Cefn Coed, Mrs. S. Foyan, Ty'r Ysgol sydd yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Mrs. G. Jones, Rhoswian sydd wedi colli brawd yn ddiweddar. Mae'r Ysgol Sul yn cael ei chynnal yn y bore o hyn ymlaen.

GŴYL PENISARWAUN – Eleni bydd yr wyl yn cael ei chynnal yn ystod wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf gan ddechrau ar y trydydd:

Gorffennaf 3: Gêm Pêl-droed y Merched.
Gorffennaf 4: Noson Goffi.
Gorffennaf 5: Pêl-droed
Gorffennaf 6: Mabolgampau
Gorffennaf 8: Carnifal.

DYMUNIADAU DA – i Jennifer Roberts ar achlysur ei phriodas â John M. Fletcher.

PWYLLGOR EISTEDDFOD – 'Roedd yr Helfa Drysor a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 24 yn llwyddiant diolch i waith caled Mr. Tegid Roberts a chefnogaeth y cystadleuwyr. Daeth yr Helfa a £15 o elw i Gronfa leol Penisarwaun. Miss Phyllis Ellis a'i chyd-deithwyr oedd yn fuddugol.

Mae Mrs. E. Jones, Cae Corniog wedi cael ei dewis i gynrychioli'r Pwyllgor yn Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af.

Cofiwch am y Gymanfa Ganu yn Ysgoldy, nos Sul, Mehefin 11!

# BETHEL

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Swyddogion y Gymdeithas Lenyddol am y tymor nesaf fydd: Cadeirydd: y Parch. George Brewer; Is-gadeirydd: Mr. W.H. Jones, Bron Eilian; Ysgrifennydd: Mrs. Beti Owen, Tan-y-Cae; Is-ysgrifennydd: Mrs. Ellen Ellis, Eryri; Trysorydd: Mr. T. Williams, 11 Cremlyn.

CADEIRYDD Y CYNGOR – Llongyfarchiadau i Mr. W.G. Ellis, Cremlyn ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Er fod Mr. Ellis wedi gwasanaethu ar y Cyngor ers dros bum mlynedd ar hugain, dyma'r tro cyntaf iddo gytuno i dderbyn y Gadair.

TÎM CRICED GOGLEDD CYMRU – Llongyfarchiadau i Mr. Richard Jones, Y Ddôl a Mr. Nigel Evans, Hafod Shalom ar gael eu dewis i chwaree criced dros Ogledd Cymru yn ddiweddar. Bu Mr. Jones yn chwarae yn y gêm yn erbyn Lancashire ond oherwydd anaf ni fu Mr. Evans yn chwarae.

PARTI'R RHOS – Llongyfarchiadau i Barti'r Rhos ar gael y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Cyd-adrodd yn Eisteddfod Môn. 'Roedd y côr yn adrodd detholiad o'r "Hil" gan Selwyn Griffith.

CADAIR EISTEDDFOD – Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Selwyn Griffith, Crud yr Awen ar ennill cadair Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Dyfarnwyd ei gasgliad o gerddi ar y testun "Bro" yn gyntaf allan o ddeg o gystadleuwyr.

PRIODI – Dydd Sadwrn, Mai 6 priodwyd Mr. Raymond Jones, Min Awel a Miss Ellen Jones yn Llangefni. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

MERCHED Y WAWR – Fe gynhelir cyfarfod olaf y tymor nos Fercher, Mehefin 14 pan fydd y Gangen yn mynd ar helfa drysor. Gofynnir i bawb sydd am fynd ar yr helfa roi eu henwau i Mrs. Mabel Jones, Eithinog neu Mrs. Beti Owen, Crud yr Awel cyn Mehefin 2il.

CYMANFAOEDD YR YSGOL SUL – Llongyfarchiadau i blant Ysgolion Sul y Cysegr a Bethel ar eu llwyddiant yn eu Cymanfaoedd a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae canlyniadau Cymanfa Cylch Deiniolen dan golofn arall yn y papur.

YMGYRCH Y LLWCH – Nos Wener, Mai 22 bu Mr. Dafydd Wigley, A.S., yn annerch cyfarfod cyhoeddus yn yr Ysgol i hyrwyddo'r ymgyrch i gael cyfiawnder i'r cyn-chwarelwyr sy'n dioddef o effeithiau'r llwch. Dewiswyd pwyllgor lleol i drefnu casglu enwau ar ddeiseb yn mynnu'r cyfiawnder. Gobeithir y bydd dros 20,000 o enwau ar y ddeiseb sy'n cael ei threfnu drwy ardaloedd llechi Gwynedd pan fydd yn cael ei chyflwyno i'r Llywodraeth.

TRIP YR YSGOL SUL – Dydd Sul diwethaf penderfynodd pwyllgor Ysgol Sul y Cysegr gynnal y trip ar yr 8ed o Orffennaf eleni. Oherwydd fod seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ar Orffennaf 1af fe ohiriwyd y trip i'r Rhyl am wythnos.

# LLANBERIS

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref o'r ysbyty ym Mangor i Mr. Robert Owen, Dôl Eilian. Gobeithio eich bod wedi gwella'n iawn.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mr. Griff Williams, 5 Rhes-y-Cae ar golli ei frawd-yng-nghyfraith yn y Felinheli.

GENEDIGAETH – Llongyfarchion i John Huws (gynt o 9 Rhes-y-Faenol) a'i briod Regula ar enedigaeth eu mab, Siôn Rhys ar Fai 11 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Llongyfarchion hefyd i taid a nain, Mr. a Mrs. Alun Hughes, 9 Rhes-y-Faenol.

CLWB METHEDIG ERYRI – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb Methedig ar Mai 8. Cafwyd cyfarfod da, gyda rhan helaeth o'r aelodau'n bresennol.

Yn y pwyllgor gwaith yn dilyn y cyfarfod codwyd Mr. Ted Thomas yn ysgrifennydd.

Diolchwyd i Mrs. Ray Williams, cyn-ysgrifenyddes y clwb am ei gwaith yn y gorffennol.

Penderfynwyd gynnal Noson Goffi yn y Ganolfan ar Mai 16. Estynnir croeso i bawb yno am baned a sgwrs.

Talwyd teyrnged i gyfeillion y clwb sydd wedi bod mor ffyddlon, yn gweithio'n ddistaw yn y gegin yn paratoi lluniaeth i aelodau'r clwb.

LLONGYFARCHIADAU – i Mervyn Allsup, 9 St. Ceunant ar ennill ei S.R.N. yn ddiweddar. Mae Mervyn yn fab i Mr. a Mrs. William Allsup, ac ar hyn o bryd yn gweinyddu yn Ysbyty Môn ac Arfon.

PEN-BLWYDD HAPUS – yn 95 oed Mrs. Mary Griffiths, 2 Glanrafon.

CRONFA'R EISTEDDFOD – Cafwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus iawn nos Wener, Mai 19 gydag elw o £404. Dyma restr o'r enillwyr:

1. Cant o lo: Mr. Arwel Hughes, 12 Glan Peris; 2. Cyw Iâr: Miss Helen Roberts, 15 Maes Padarn; 3. Bocs o nwyddau: Mrs. Alice Wilson Hughes, Siop Wilson. 4. Doliau: Miss Meira Jones, 14 Stryd Turner; 5. Bocs o Fisgedi: Mrs. A.M. Evans, 28 Stryd Goodman; 6. Tedi Bêr: Mrs. Gwyneth Clarke, 1 Llainwen; 7. Cacen: Mrs. H. Jones, 14 Stryd Turner; 8. Pêl-droed: Miss Doreen Ward, Maes Padarn; 9. Gêm Tennis Bwrdd: Gillian Vaughan Jones, Stryd y Dŵr. 10. Cyw Iâr am y tocyn lwcus: Mrs. Brenda Parry, Cambrian Terrace; 11. Dol Glwt: Mr. A.W. Evans, 43 Cae Mur, Caernarfon.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd, ac i chwi y pentrefwyr am eich cefnogaeth. Mae'r Gronfa ar hyn o bryd oddeutu £1,700.

Nos Wener, Mehefin 23, bydd Helfa Drysor gyda cheir. Gofynnir i'r rhai sydd yn awyddus i ymuno i roi eu henwau i Mrs. Marie Evans, Y Siop Anrhegion cyn Mehefin 16. Bydd yn noson llawn hwyl gan ddiweddu gyda chyw iâr a sglodion.

DIOLCH – Carwn ddiolch yn fawr i'm cyfeillion am yr holl anrhegion a gefais yn ystod fy arhosiad yn yr ysbyty. Hefyd i aelodau cangen yr Urdd o 11 oed i 14 oed am eu rhodd gwerthfawr.

Diolch i bawb.

Rhiannon Pritchard.

## CWPAN ECO'R WYDDFA CYNTA I'R FELIN!

Y MAE Pwyllgor Carnifal Llanberis yn estyn gwahoddiad i'r timau canlynol i'r Gystadleuaeth 'Gemau Giamocs' eto eleni:

LLANRUG CWM-Y-GLO PENISARWAUN LLANBERIS DEINIOLEN (Enillwyr y gwpan y llynedd)

A wna ysgrifenyddion y 5 tîm uchod gadarnhau eu bod yn derbyn y gwahoddiad trwy gysylltu â Mr. Arwyn Hefin Roberts, 5 Stryd y Ffynnon, Llanberis erbyn Mehefin 10. Bydd yn gyrru'r manylion iddynt ymhellach ymlaen.

Y mae un lle arall yn y gystadleuaeth eleni a bydd hwn yn mynd i'r tîm cyntaf i ysgrifennu at Mr. Arwyn Roberts yn mynegi eu dymuniad i gymryd rhan. Y mae'r lle yn agored i unrhyw dîm pentref o ardal Eco'r Wyddfa. Os bydd mwy na dau gais yn cyrraedd yr un diwrnod, y cyntaf a agorir fydd yn llenwi'r lle.

Cofiwch ysgrifennu at:

ARWYN HEFIN ROBERTS,
5, STRYD Y FFYNNON, LLANBERIS.

## Gŵr Bonheddig a Cherddor



**AR FEHEFIN yr 2il bydd un o gyfeilyddion enwocaf y fro yn wir os nad yr enwocaf, yn 80 oed. Tra'n dymuno pen-blwydd hapus i W. Huxley Thomas, carai'r Eco a thrigolion y fro ddiolch iddo am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd ym myd cerddoriaeth. Dymunwn flynyddoedd dedwydd i'r cerddor, organydd a'r gŵr bonheddig hwn o Lanberis.**

Pan oedd yn ddeunaw oed cafodd ei ddewis fel organydd yn un o ddau, y diweddar William Hughes ag yntau yng Nghapel Preswylfa Llanberis, y Capel lle y cafodd ei fagu. Bu yno am 2 flynedd fel organydd. 'Roedd yng Nghlegir gapel bach a berthynai i gapel Preswylfa, ac âi yn fynych i gapel Clegir i gymryd rhan pan oedd yn dair ar ddeg oed, ac 'roedd yn rhaid iddo chwarae'r organ wedyn yn ystod y gwasanaeth.

Bu hefyd yng Nghapel Hebron yn cymryd rhan mewn cyfarfod gweddi Diolchgarwch pan oedd yn bedair ar ddeg oed.

Aeth yn organydd i Gapel y Wesleiad Ebenezer Caernarfon am un mlynedd ar ddeg, wedi hynny aeth yn organydd capel y Tabernacl Methodstaidd Bangor am saith mlynedd, ac yn ystod yr amser y bu yno fe ddysgodd saith o ferched i chwarae'r organ. Rhai o Fangor ac eraill o sir Fôn a'r Waunfawr. Cyfeiliodd mewn llawer eisteddfod a chyngerdd. Arferai gyfeilio tua phump ar hugain o eisteddfodau yn ystod tymor y gaeaf ym Môn ac Arfon, a chyn belled â Dinbych. Bu'n cyfeilio yn eisteddfodau Rhosgadfan ddwy waith yn ystod y flwyddyn am bedair ar ddeg o flynyddoedd yn olynol gyda'r Methodistiaid a'r Annibynwyr. Bu'n gyfeilydd i gôr y chwarel, a chôr y Crosville. Bu mewn llawer lle yn cadw cyngherddau megis Caer, Wrecsam, Dolgellau ac yn bennaf yn cael y fraint o ddarlledu yn Iwerddon, Dublin Broadcasting House. Cyfeiliodd i Gôr Llanberis – cadwodd gyngerdd yn y Picton Hall, Lerpwl dan arweiniad y diweddar Mr. Charles Owen. Arweinydd côr Crosville oedd Mr. Richard Jones. Bu'n cyfeilio i'r Star Concert Party, ac Eryri Concert Party. Ni allwn ddod i ben i enwi'r holl gyngherddau y bu yn cyfeilio ynddynt. Dysgodd lawer, rhai cannoedd o ddisgyblion, bu un yn organydd yn Birmingham, ac un arall yn organydd ger Dinbych a'r Waunfawr. Bu'n organydd Eglwys Padarn Llanberis am 22 mlynedd.



Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



MODURDY MENAI

FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans



GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814
GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

### CANLYNIADAU CYMANFA YSGOLION DOSBARTH DEINIOLEN M.C.

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Dosbarth Deiniolen ddydd Sul, Mai 7 yn Eglwys Brynrefail. Llywydd cyfarfod y prynhawn oedd Mr. G.W. Williams, Brynrefail ac yng nghyfarfod yr hwyr llywyddwyd gan y Parch. W.R. Williams, Cysegr. Cymerwyd y rhannau arweiniol yn y ddau gyfarfod gan barti plant o Eglwys Brynrefail, Parti cydadrodd Cefnywaen a Mr. R.W. Evans, Brynrefail. Yr arweinydd cerddorol oedd Mrs. G. Alwena Williams, Llanddona. Yr organyddion oedd Mrs. Lowri P. Williams a Miss M.W. Evans, Brynrefail. Diolchwyd yng nghyfarfod yr hwyr gan Mr. H. Williams, Y Glasgoed. Rhoddwyd y fendith gan Deiniol Williams.

Canlyniadau'r Arholiad Ysgrifenedig: 1. Gwenno Bebb; 2. Awen Jones, Cysegr.

Arholiad Llafar: Dan 4: (marciau llawn): 1. Gwawr P. Williams, Cefnywaun; Julie Cole Jones, Disgwylfa; Sioned Meleri Owen; Manon Ellis; Bethan Jones; Ian Jones; Ruth W. Parry, Gaynor Hughes a Fiona Owen, Cysegr.

Dan 5: (marciau llawn): 1. June M. Serille; V. Jean Williams; Mared Sutherland a Gwynant Maxwell, Cefnywaen; Ian Roberts, Awen Williams, Nia Hughes, Cheryl Owen, Gwen Vaughan Jones, Ellis Bebb a Jennifer Jones, Cysegr.

Dan 6: (marciau llawn): 1. Iwan G. Williams, Dylan W. Williams a Joyce E. Williams, Cefnywaen; Rodney Roberts a Paula Ellen Walters, Brynrefail. Gwyn Griffiths, Disgwylfa. Amanda Williams, Nicky Evans, Huw Llewelyn Williams, Kelvin Roberts, Rhian Hughes, Angharad Elis a Carys Owen, Cysegr, 2. Dylan Cole Jones, Disgwylfa.

Dan 7: (marciau llawn): 1. Tegid W. Roberts, Cefnywaen; Caron Haf Jones a Glenda Ann Walters, Brynrefail. Elwyn Parry, Lynne Hardwicke a Marc Evans, Cysegr. 3. Andrew Jones a Marc Anthony Williams, Cysegr.

Dan 8: (marciau llawn): 1. Jacqueline O. Walters, Brynrefail, Jennifer Ann Williams, Cefnywaen, Ceri W. Williams a Ian Griffiths, Disgwylfa. Russell James Williams, Meinir D. Williams, Helen J. Jones, Amanda Owen ac Alan Williams, Cysegr. 2. Rhian Parry, Cysegr.

Dan 9: (marciau llawn): 1. Dewi Rees Williams, Disgwylfa, Ian Prys Roberts, Cefnywaen, Delyth W. Evans, Glasgoed Neil Roberts ac Alwen J. Jones, Brynrefail, Olive Roberts a Dewi W. Williams, Cysegr.

Dan 10: (marciau llawn): 1. Manon D. Williams, Mair O. Hughes, Richard A. Williams a Guto ap Owain Bebb, Cysegr, 2. Enid Price a Myfyr Jones, Cysegr, 3. Ceinwen Parry a Judith A. Owen, Cysegr.

Dan 11: (marciau llawn): 1. Sandra A. Jones, Glasgoed, Sian G. Williams a Delyth Fon Jones, Disgwylfa.3. Llinos Ll. Roberts, Brynrefail a Pamela Hughes, Disgwylfa.

Dan 12: (marciau llawn): 1. Gwenno Bebb, Cysegr, Anwen Th. Jones, Disgwylfa, 2. Elfed W. Williams, Disgwylfa 3. Awen Jones, Cysegr.

Dan 13: (marciau llawn): 1. Tegwen Williams, Cysegr.

Dan 14: (marciau llawn): 1. Ann Yvonne Evans, Cysegr.

Cyd-adrodd: Dan 9: (marciau llawn): 1. Partion Brynrefail a Chysegr.

Dan 12: (marciau llawn): 1. Parti Disgwylfa.

Dan 50: (marciau llawn): 1. Parti Cefnywaen.

Arholiad Llafar Dan 50: (marciau llawn): 1. Mrs. H. Sutherland, Mrs. N. Williams, Miss E.E. Griffith, Cefnywaen a Mrs. L.P. Williams, Brynrefail 2. Mrs. N. Owen, Cysegr, Mrs. Shirley Roberts, Brynrefail.

Dros 50: (marciau llawn): 1. Mrs. E. Foulkes, a Mr. R.W. Evans, Brynrefail; 2. Mrs. E. Davies, Disgwylfa, Mrs. M. Thomas, Cefnywaen.

### CYSTADLEUAETH Y MIS



Cystadleuaeth ragorol – ac yn hawdd i'w dyfarnu. Ydach chi'n cofio'r cwestiwn? Beth mae'r ddau yma'n ei ddweud?

Rhaid yw rhannu'r wobr, rhwng Mr. J.H. Roberts, Pant Teg, Waunfawr a Mr. Bert Jones, Garfield House, Llanberis.

Dyma gynnig Mr. Roberts:

"Wti'n cal llau?"

"Na 'Eco'r Wyddfa' fydda' i'n gal."

A chynnig Mr. Jones:

"Tydi'r ffaith mod i'n byw mewn cwt cwningan, a chditha yn Buckingham Palace yn gwneud dim gwahaniaeth boi."

Mae 50c ar ei ffordd i chi.

Beth am gystadleuaeth y mis hwn. Ewch ati.

### CARTHFFOSIAETH GWELL RHAGOLYGON (NEWYDDION CYNGOR)

Penodwyd y Cynghorydd Pat Larsen gan Gyngor Arfon i fynd gyda Mr. D.L. Jones, Prifwelthredwr Arfon a Mr. Gwilym Roberts, Dirprwy Swyddog Technegol i gyfarfod gyda Mr. Haydn Rees, Prifweithredwr y Bwrdd Dŵr, i drafod carthffosiaeth yr ardal. Y mae'r sefyllfa yn fwy addawol yn awr gan i'r Bwrdd Dŵr ddatgan eu bwriad i foderneiddio y system sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Neiniolen, Penisarwaun a Brynrefail.


**W.J.GRIFFITH**

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

BP heat

A SHELL-MEX

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*


# BETWS GARMON

CRONFA'R EISTEDDFOD – Yn barod, mae'r pentref bron â chyrraedd y nod o £250 a osodwyd i'r Ymgyrch Leol gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979.

Trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. G. Williams, Ty'n Weirglodd cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus dros ben allan yn yr ardd ar noson hynod o braf, sef Mai 18.

Mae aelodau'r pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i bawb o'r pentref a'r tu allan – y Saeson a'r Cymry yn gweithio ochr yn ochr yn hapus dros ben. Gwnaed elw o £133. Enillwyr y raffl oedd: (1) Mrs. Luned Roberts, Y Waunfawr; (2) Mrs. Rhian Evans, Betws Garmon; (3) Mr. H.O.Jones, Betws Garmon; (4) Delyth Williams, Y Waunfawr. Cystadleuaeth Enwi'r Ddol: Mrs. Alice Johnston, Y Waunfawr. Rhif y Smartis: Mrs. C.E.Jones, Y Waunfawr. Pwysau'r Gacen: Mrs. Roberts, Caernarfon.

Hefyd, yn ychwanegol at y nod derbyniwyd cyfanswm o £39, sef cyfraniadau perchnogion tai haf yn y pentref. Dyma'r enwau: Mr. a Mrs. Sear; Mr. a Mrs. Turner; Mr. a Mrs. Parker; Mr. a Mrs. Raynell; Mr. a Mrs. Watson, a Mr. a Mrs. Tomms.

Gwnaeth rhai o blant y pentref eu rhan trwy ysgrifennu cyfeiriadau ar amlenni: £15.

Saif y targed ar hyn o bryd yn £205 gyda mwy o weithgareddau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, sef Raffl Fawr a werthir trwy'r haf; Cyngerdd gan Barti Llwyndyrus fis Medi, a Pharti Caws a Gwin yng Nghastell Cidwm (trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Davies) yn yr hydref.

Pan gyrhaeddir y targed trosglwyddir arian i gronfa'r Waunfawr er mwyn eu helpu hwythau i gyrraedd eu nod.



*Pwyllgor brwdfrydig Betws Garmon. Bron â chyrraedd y nod! Yn sefyll o'r chwith i'r dde: H.O. (Wmffra) Jones, John Williams, Glenys Williams (trysorydd), Rhys Williams (cadeirydd), O.P. (Now) Pritchard. Yn eistedd o'r chwith i'r dde: Nellie Williams, Rhian Evans a Brenda Jones (ysgrifennydd).*

### ATGOFION MEBYD PAN YN DRIGAIN OED

Awen, adrodd fy adgofion
Am ddelweddau bore foes,
Pan yn blentyn yn Llanberis,
Cyn cyfarfod unrhyw loes;
Mae'n ymrithio yn y pellder,
Drwy helyntion chwe deg mlwydd.

Sŵn cyfoedion a'u chwareuon
Sydd yn dyfod i fy nghlyw,
Dai Tŷ Ucha, Wil y Siamber,
Jan a Chadi hawddgar, syw;
Dafydd Michal, Wil Tŷ Newydd,
Bob Caer Tŷ, a Dic y Glyn,
Dic Cae'r Meincia, Dafydd Sgubor.
Pa le maent hwy erbyn hyn?

Pyrs a Dafydd o Lwyn Celyn,
Lowri a Sionat o'r Coed Mawr,
Rhys Cae'r Fran a Wili Weldon,
Tom Llanrwst, ein beiddiol gawr;
Beti Huws o Begw'r Hafod,
Jeffra ac Alsi Bwlch y Groes,
Nell a Lora fwyn Cae Esgob
Dd'ont i'm gwydd ar derfyn oes.

Os gwna adgof fi'n hiraethus,
Ar ei adain gwibio wnaf,
Drwy yr ardal hen, ramantus,
Fel ymwelydd yn yr haf,
Af i'r Capel Coch yn heinif,
Fel y bûm yn llaw fy Mam,
Yma cyfyd ynwyf hiraeth –
Ni raid i mi ddweyd paham!

Ni chanfyddir yn Llanberis
Nemawr un adwaenaf mwy;
Ac mae fenw yn ddyeithriol
Drwy holl gyrau fy hen blwy;
Pan yn tramwy drwy'n hen ardal
Annwyl, rai blynyddau'n ôl,
Syn-ryfeddwn wel'd dyeithriad
Yn f'hen gartref, Coed y Ddôl!

Pan chwareuwn yno'n blentyn,
Nid oedd yno ond dau dŷ,
Lle mae heddiw dref boblogaidd –
O! y cyfnewidiad sy'!
Lle'r oedd cyll a choed criafol
Drain a deri'n tyfu'n ir,
Eirin tagu mwyar duon
Gyda'r llys yn hilio'r tir.

Ai myfi yw'r bachgen hwnnw
Fu yn chwareu gyda'r plant,
Ond sydd heddiw yn henafgwr
Wedi dod i lawr i'r pant?
Ai y bachgen heinif hwnnw
Oedd fel ewig ar ei droed,
Sydd yn gwyro dan ofidiau
Wedi pasio trigain oed?

R.R. Williams
Eisteddfod Granville America
MEDI, 5, 1896.


E.&E.M. GREEN

**SIOP GRON**

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

# Dyddiadur y Mis

MEHEFIN 1, Iau: NANT PERIS – Taith Gerdded Noddedig er budd Cronfa Leol 'Steddfod '79. WAUNFAWR – Sefydliad y Merched. BETHEL – Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79.
2, Gwener: PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
3, Sadwrn: YR ARDAL – Mabolgampau Eryri yn Nol y Goeden, Llanberis. LLANRUG – Taith Gerdded Noddedig er budd y Clwb Pel-droed. Taith Hanesyddol dan nawdd y Gymdeithas Undebol. Gwibdaith Undeb y Mamau i Blas Erddig ger Wrecsam ac i Gaer.
5, Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – sgwrs ar 'Atal Troseddau.' LLANBERIS – Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb pel-droed yn y Ganolfan am 7.30. Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch.
6, Mawrth: DEINIOLEN – Clwb Elidir LLANBERIS – Undeb y Mamau. Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch.
7, Mercher: CWM-Y-GLO – Gornest Chwilen yn yr Ysgol am 7 o'r gloch. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
8, Iau: LLANBERIS – Disco dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.30. Pwyllgor y Carnifal yn Ysgol Dolbadarn am 7 o'r gloch.
9, Gwener: PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 LLANBERIS – Clwb yr Henoed. Plant hynaf Ysgol Dolbadarn yn ymweld a Chonwy i weld Perfformiad Cwmni Theatr Cymru o "Yr Eco a gollodd ei lais". Noson o Ffilmiau i'r plant yn y Ganolfan am 7.30. Y noson er budd Cronfa Leol 'Steddfod '79.
10, Sadwrn: CWM-Y-GLO – Gwibdaith Merched y Wawr. YR ARDAL – Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri. LLANBERIS – Taith Gerdded Noddedig er budd y Carnifal. WAUNFAWR – Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gaer ac i Blas Erddig ger Wrecsam.
11, Sul: PENISARWAUN – Cymanfa Ganu yn Ysgoldy, Racca. Er budd Cronfa Leol 'Steddfod '79. LLANRUG – Cymanfa Bregethu yng Nghapel y Bryngwyn. Ei Ras Archesgob Cymru yn gweinyddu'r Sacrament yn Eglwys Sant Mihangel.
12, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
13, Mawrth: CWM-Y-GLO – Noson Goffi Undeb y Merched. WAUNFAWR –Cyngor Cymdeithas. LLANRUG – Gwibdaith Merched y Wawr i Benrhyn Llyn.
14, Mercher: CWM-Y-GLO – Gyrfa Chwist am 7.30. BETHEL – Helfa Drysor Merched y Wawr.
16, Gwener: PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. LLANBERIS – Noson Goffi er budd Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 7.30.
17, Sadwrn: DEINIOLEN – Taith Ddirgel dan nawdd Cangen Plaid Cymru. DINORWIG – Taith Gerdded Noddedig er budd Cronfa Leol 'Steddfod '79. BRYNREFAIL – Trip Siopa i Wrecsam gan Sefydliad y Merched.
18–24: WYTHNOS GARNIFAL LLANRUG.
18, Sul: LLANRUG – Cymanfa Ganu yng Nghapel Pontrhythallt.
19, Llun: LLANRUG – Tombola yn yr Ysgol Gynradd. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30
20, Mawrth: LLANRUG – Disco'r Plant yng Nglanmoelyn.
21, Mercher: CWM-Y-GLO – Pwyllgor Blynyddol Merched y Wawr. LLANRUG – Gem derfynol Pel-droed y Merched. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
22, Iau: WAUNFAWR – Merched y Wawr. LLANRUG – Noson Adloniant a Choffi yn yr Ysgol Gynradd.
23, Gwener: LLANRUG – Mabolgampau yng nghae Ysgol Brynrefail. DEINIOLEN – Taith Ddirgel Merched y Wawr. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. LLANBERIS – Clwb yr Henoed. Helfa· Drysor gyda cheir. Yr elw er budd Cronfa Leol 'Steddfod '79.
24, Sadwrn: LLANRUG – Y Carnifal. LLANBERIS – Gwibdaith flynyddol Clwb yr Henoed.
26, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
27, Mawrth: LLANRUG – Cyfarfod Blynyddol y Clwb Pel-droed yn y Sefydliad Coffa am 7.30. PENISARWAUN – Clwb yr Heulwen.
28, Mercher: CWM-Y-GLO – Gyrfa Chwist am 7.30.
29, Iau: LLANBERIS – Taith Ddirgel Sefydliad y Merched.
30, Gwener: WAUNFAWR – Rali Geir dan nawdd Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. YR ARDAL – Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Caernarfon 1979. Perfformiad o "Ffantasmagoria" gan Gwmni Amatur Cymraeg Clwyd yn Neuadd Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon am 8 o'r gloch.

## DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 1: Diwrnod trip pentref Llanberis
Gorffennaf 1: Diwrnod Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Cyngerdd y Cyhoeddi yn Sinema'r Majestic am 7.30.
Gorffennaf 3–8: Gŵyl Penisarwaun yn diweddu gyda Charnifal.
Gorffennaf 6: Ffair Haf Cronfa Rigarug, Llanrug yn Ysgol Brynrefail am 7.00.
Gorffennaf 7: Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys Waunfawr er budd Cronfa Leol Eisteddfod '79.
Gorffennaf 9: Cymanfa Ganu yn y Waunfawr.
Gorffennaf 2–8: Wythnos Garnifal Deiniolen.
Gorffennaf 7–15: Wythnos Garnifal Llanberis.
Gorffennaf 15: Ras Pen yr Wyddfa.
Gorffennaf 15: Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru Deiniolen.
Gorffennaf 16–22: Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.

## AR WERTH


**DEINIOLEN – Gorffwysfa, 9 Tai Gweledfa, – tŷ talcen cadarn a hwylus i'r siopau. 4 ystafell i fyny a thair i lawr. Gardd hwylus. Ffoniwch Bethedsa 600423.**

## AR GAEL AM DDIM

Mae gan Mr. E. Hughes, 12 Bryn Eglwys, Penisarwaun canŵ (canoe) ar gael yn rhad ac am ddim i unrhywun sydd yn fodlon ei chario adref. Mae angen tipyn o waith trwsio arni.

# Croesair 25

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: Ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th.**



**AR DRAWS:**
1. Y gellir ei ysgogi (7)
5. Disymwth (5)
8. Cyflwr da'r corff (5)
9. Ffurf wahanol o rywbeth (7)
10. Tref yng Nghlwyd (9)
12. "... Maria (3)
13. Pysgodyn (6)
14. Ansicr (6)
17. Clawdd ... (3)
18. Gwrthdystio (9)
20. Gyrru un o'i wlad (7)
21. Gwayw neu ddolur (5)
23. Gwahanu (5)
24. Gwaelach (7)

**I LAWR:**
1. Dynion Sanctaidd (5)
2. Anifeiliaid fferm – budr! (3)
3. Gwaith iâr (5.2)
4. Blodyn peraroglus (6)
5. Un o oleuadau'r awyr (5)
6. Cyfansawdd ffrwydrol (9)
7. Afonig ac aderyn yn enw ar le (4.3)
11. Yr anifeiliaid mwyaf (9)
13. Llyffantod (7)
15. Cwrtais (7)
16. Un o seremonïa' poblogaidd yr Eisteddfod (6)
18. Mae'r esgid hon yn lwcus (5)
19. Bythol (5)

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.
Anfoner y cynigion fel arfer i:
**Myrddin Owen,**
**32 Stryd Fawr,**
**LLANBERIS.**

**ATEBION CROESAIR RHIF 24**

**AR DRAWS:** 1. Rhigymau; 5. Sucan; 8. Dameg; 9. Seithfed; 10. Anterliwt; 12. Yul; 13. Cryman; 14. Ychydig; 17. Fro; 18. Llongyfarch; 20. Marwaidd; 21. Diota; 23. Dwsin; 24. Storiwr.
**I LAWR:** 1. Rhodfa, 2. Gem; 3. Magwrfa; 4. Unsain; 5. Seiat; 6. Cyflymdra; 7. Nadolig; 11. Twyllodrus; 13. Cyfamod; 15. Chwyldro; 16. Anaddas; 18 Lliain 19. Chwaer; 22. Oni.

**Enillydd Croesair Rhif 24:**
**Mrs. Eifiona Jones,**
**Bron Eryri,**
**Brynrefail**

## YN EISIAU

Bwcl S.E.N. i roi ar felt nyrs i Miss Ellen W. Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.
**Dwy siwt Judo:** Waunfawr 294
**Rhannau Car MGB** yn arbennig drysau a bwt. –Jones, 66 Tyddyn Isaf, Porthaethwy.

## AR WERTH

'Lenham Fastback Conversion Kit' – ar gyfer MGB – £10. Jones, 66 Tyddyn Isaf, Porthaethwy.


**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU CAERNARFON A'R CYLCH 1979**

**GWYL Y CYHOEDDI**
Nos Wener, Mehefin 30, 1978
am 8 o'r gloch yn Neuadd Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.
Cwmni Amatur Cymraeg Clwyd yn cyflwyno **FFANTASMAGORIA**
*(Drama Gerddorol*
*gan Bob Roberts a Rhys Jones)*
Cynhyrchydd: Owen V. Evans
Pris Tocyn: £1.00
**Tocynnau i'w cael yn:**
Swyddfa'r Eisteddfod, Twtil, Caernarfon
ac yn y siopau canlynol:
Eric Jones, Siop Lyfrau,
Y Bontbridd, Caernarfon
Eirug Wyn, Siop y Pentan,
Siopau'r Hen Farchnad, Caernarfon.

# CHWARAEON

# Llanberis 1 Llanrug 4



LLANBERIS A'R CWPAN DEANFIELD



LLANRUG A PHENCAMPWRIAETH Y CYNGHRAIR

DAETH tymor pêl-droed mwyaf llwyddiannus yr ardal i ben o'r diwedd, a holl dlysau'r gynghrair yn ddiogel yng nghoffrau Llanrug a Llanberis. Nid oes dadl nad tymor Llanrug a fu yn y diwedd, ond wrth sylweddoli y gallai Llanberis fod wedi mynd â'r Gynghrair oddi arnynt yng ngêm ola'r tymor, a'u bod wedi ennill popeth a fethwyd gan eu cymdogion, mae'n amlwg y bu'n dymor ardderchog iddynt hwythau hefyd.

Yn y pythefnos diwethaf enillodd chwaraewyr tîm Llanrug fedalau pencampwyr y Gynghrair, a medalau y Cwpan Penrhyn, heb anghofio'r tlysau hardd am ddod â'r Cwpan Iau Gogledd Cymru adref am y tro cyntaf. Gan hogia Llanberis y mae medalau enillwyr y cwpan gynghrair arall, yr Alves, a thlysau'r Cwpan Deanfield i ail dîm y Gynghrair. Mae'n rhaid cofio hefyd y gellid yn hawdd mai'r ddau dîm yma fyddai wedi chwarae am Gwpan Gyfryngol Gogledd Cymru – collodd Llanrug i Fiwmaris yn y rownd gyn-derfynol, a Llanberis o drwch blewyn (yn y gêm gyntaf) i Gaernarfon. Deallaf fod siawns da mai Llanrug fydd yn ennill y Tlws Chwarae Teg, a gyflwynir gan y Gynghrair i'r tîm fu, yn nhyb y pwyllgor, yn chwarae'r pêl-droed tecaf a glanaf yn ystod y tymor, ac ar ddechrau'r tymor nesaf byddant yn ail- gyfarfod â Biwmares, – pencampwyr Cynghrair Môn, am y Cwpan Marconi.

Ar ddiwedd tymor mor ardderchog, ni erys i mi ond llongyfarch, a diolch ar ran *Eco'r Wyddfa*, a'r holl ardalwyr i'r ddau dîm, – y ddau reolwr, Hywyn Jones a Sel Allsup, ac i'r ddau bwyllgor am dymor pêl-droed bythgofiadwy. Bu'n bleser personol i mi gael cyfathrachu â'r ddwy garfan, y swyddogion, a rhai o'r cefnogwyr mwyaf penboeth ac unochrog (yn y modd mwyaf cyfeillgar) y bu'n fraint i mi ddod ar eu traws erioed, ac am gael ymuno â hwynt yn eu dathlu.

"Llanrug Utd. – the pride of Junior Soccer in North Wales" sydd ar y cerdyn y tu ôl i'r Bar ym Mhen-y-bont – a phwy all ddadlau â'r gosodiad. Ein braint ni yw fod y tîm sy'n debycaf o'i goresgyn hefyd o ardal *Eco'r Wyddfa.*

### Y GÊM FAWR

Ar Fai 20 chwaraewyd gem olaf y tymor yn y Gynghrair a'r ddau dim a siawns am y bencampwriaeth. 'Roedd gem gyfartal yn ddigon i Lanrug, ond traddodiad yn eu herbyn, gan na enillodd Lanrug yn Llanberis yn y deng mlynedd olaf.

Tyrfa dda o bron i 600 yn troi allan i'w gwylio, a hyd yn oed teledu Harlech yn teimlo ei bod yn gem ddigon pwysig i'w ffilmio.

Llanrug aeth ar y blaen – Hefin Jones yn cael ei dynnu i lawr ar yr asgell dde, ac o'r gic gosb, Barrie Pitts yn rhoi'r bel yng ngefn y rhwyd, ond ychydig cyn yr egwyl sgoriodd Ray Harding gol wych i ddod a Llanberis yn gyfartal.

Yn yr ail hanner, a Llanberis yn sylweddoli fod yn rhaid iddynt ennill y gem os am y bencampwriaeth, dechreuasant ymosod, o ddifrif, ac wrth wthio ymlaen yn naturiol yn gadael lle gwag yn y cefn. O ganlyniad, llithrodd Dic Owen trwodd, croesi'r bel i Len Padmore, ac yntau'n taro'r bel yn daclus rhwng coesau'r golgeidwad. O fewn ychydig funudau, 'roedd Llanrug wedi sgorio'r drydedd – Dic Owen y tro hwn, ac yr oedd hon yn ddigon i dorri calon hogia Llanber. Cyn y diwedd, cafodd Dic Owen gol arall i wneud y gem yn berffaith ddiogel – a dyna'r bencampwriaeth i Lanrug am y tro cyntaf ers tymor 1971–72.

## DWY FFEINAL

### NOS FAWRTH MAI 23
### ROWND DERFYNOL
### CWPAN ALVES

**Llanberis 2 Caernarfon Utd. 2**

Gêm galed ar yr Oval i Lanberis, yn erbyn trydydd tîm y Gynghrair, a hwythau'n methu â rhoi eu tîm gorau ar y cae. Wyn Evans sgoriodd y gôl gyntaf, a chredid y byddai'n ddigon, a Llanbêr yn eu hamddiffyn mor ddygn ond daeth Caernarfon yn gyfartal ym munud ola'r gêm. Chwaraewyd amser ychwanegol a 2–2 oedd y sgôr ar ôl y cyfnod hwnnw. Iwan Evans yn rhwydo dros Llanberis. Penderfynwyd y gêm ar giciau cosb oddi ar y smotyn gwyn a daeth y cwpan i Lanberis, diolch yn bennaf i Gwilym Williams eu golgeidwad am atal ac i James Hayes o Gaernarfon am fethu.

### NOS IAU, MAI 25
### ROWND DERFYNOL
### CWPAN PENRHYN

**Llanrug 4 Mountain Rangers 0**

Gêm ola'r tymor i Lanrug, a siawns da ganddynt i ennill y Cwpan na fu yn eu meddiant ers ail ddechrau yn y gynghrair yn 1968. I roi mwy o flas ar y gêm, – yn nwylo'r Rangers y bu'r tlws hwn am y tair blynedd diwethaf. Siomedig iawn fu hi fel gêm serch hynny, ac mae'n rhaid dweud nad oedd ond un tîm ynddi. 'Roedd straen tymor hir yn amlwg ar y ddau dîm a theimlid nad oedd fawr o awydd chwarae ar neb. Uchelbwyntiau'r gêm oedd y tair cic gosb a syrthiodd i ran Llanrug, a hwythau'n methu dwy ( gan gynnwys yr un a gynigwyd gan eu golgeidwad!) a thair gôl gan Hefin Jones.

### AIL ADRAN GYNGHRAIR GWYRFAI

**Soniwyd am Dimau Bach yn Ardal,timau Cynghrair Gwyrfai yn rhifyn Ebrill o'r *Eco,* a daeth yr adeg o'r diwedd, ar ddiwedd y tymor i longyfarch pencampwyr yr ail adran. Fel pe baent am unioni'r "cam" a wnaethpwyd â thîm mawr y pentref, Llanberis sydd ar ben y gynghrair hon, a Llanrug yn brathu wrth eu sodlau. Mae holl chwaraewyr y Gynghrair o dan 15eg oed, a bu'r ddwy gurfa a roddwyd i Lanrug gan Llanbêr yn ystod y tymor yn gyfrwng i alluogi rhai o'r pentrefwyr, beth bynnag i gerdded â'u pennau'n uchel. Dyma lwyddiant cyntaf Llanberis yn y gynghrair y buont yn chwarae ynddi er eu sefydlu ac ar ran trigolion y pentref gofynwyd i mi ddiolch i Twm John am ei waith a'i ddiddordeb dros y blynyddoedd – yn aml heb neb o gwbl i'w gynorthwyo.**

### SNWCER

*Tra'n sôn am Bencampwyr Cynghreiriau, dyma rai eraill o ardal yr* Eco. *Rhwydo peli yw eu camp hwythau hefyd, a gwyrdd yw lliw y 'maes' y chwaraeant arno, ond yno mae terfyn y gyffelybiaeth. Pren a sialc yw eu 'sgidia ffwtbol' nhw ac ar fwrdd yn llyfrgell Deiniolen y byddant yn arddangos eu crefft. 'Gleision' Deiniolen yw pencampwyr Adran B, Cynghrair Caernarfon, Bangor a'r cylch eleni a gwelir isod rai o aelodau'r tîm, a'u tarian.*



*H. Williams, W.J. Williams, Len Parry, D.W. Jones, Arfon Jones a tharian Adran B, Cynghrair Snwcer Caernarfon Bangor a'r cylch.*